# Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: Cynllun Cyflawni Asesiadau Effaith

**Hyperddolenni i asesiadau effaith**

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (crynodeb)

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

# Cyflwyniad

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn rhoi pwrpas cyffredin sy'n rhwymol yn gyfreithlon – y saith nod llesiant – ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n rhoi manylion am y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio, a gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau drwy sicrhau bod y cyrff hyn yn ystyried yr hirdymor, yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, yn cymryd ymagwedd integredig a chydweithredol, ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl o bob oed. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiadau presennol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cydraddoldeb a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae datblygu cynaliadwy yn ffordd o wneud pethau yn hytrach na diben ynddo ei hun. Mae'r Ddeddf yn gwneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor graidd sy'n llywio sut y mae corff cyhoeddus yn gweithredu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod dyletswyddau eraill ar awdurdodau lleol i ymgorffori dull ataliol trwy ystyried effaith hirdymor eu gweithredoedd. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus a'r endidau a nodir yn y Ddeddf

fabwysiadu dull mwy integredig o gynllunio a darparu gwasanaethau. Hefyd, mae'n rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth ag unigolion a chymunedau. Mae'r egwyddorion craidd a'r gofynion deddfwriaethol hyn yn sylfaen i Strategaeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl Cymru a'i Chynllun Cyflawni.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng llesiant Cymru a llesiant unigolion. Mae datblygiad cynaliadwy yn cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn byw ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywydau. Mae'r defnydd o'r term 'llesiant' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ategu ei gilydd. Mae ystyr "llesiant" yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn berthnasol i ddiben y Ddeddf honno yn unig. Diffinnir "llesiant" yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn perthynas ag 'unigolyn', tra bo "llesiant" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyfeirio at yr economi, cymdeithas, yr amgylchedd a diwylliant ar draws Cymru. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn canolbwyntio ar un is-set o boblogaeth Cymru, sef pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Isod ceir dolenni i ganllawiau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-canllawiau

## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel rhywun sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn, neu blentyn anabl. Gall y sawl sy'n derbyn gofal fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind na all, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, ymdopi heb gymorth. Gallai gofalwr fod yn ŵr sy'n gofalu am ei wraig, yn rhiant sy'n gofalu am blentyn a chanddo anghenion gofal a chymorth neu'n blentyn sy'n gofalu am ei riant neu am frawd neu chwaer.

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella bywydau gofalwyr o bob oed yng Nghymru, ym mis Hydref 2020 lansiodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ein hymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu ein cyfeiriad arfaethedig ar gyfer y strategaeth newydd, ac yn cynnwys cynigion i ychwanegu pedwaredd flaenoriaeth genedlaethol newydd yn canolbwyntio ar ofalwyr cyflogedig a'r rhai mewn addysg. Hefyd, roedd yn cynnwys cynnig i greu Siarter newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Mae'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ar gael ar ein gwefan.

Wrth ddatblygu'r strategaeth newydd, fe wnaethom ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ofalus, gan fynd ati hefyd i ymgysylltu'n ehangach â gofalwyr di-dâl o bob oed a'u cynrychiolwyr. Cynhaliwyd y broses ymgysylltu hon trwy'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Grŵp Ymgysylltu ategol. Hefyd, roedd y ddau grŵp hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni, a byddant yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro'r broses weithredu.

Lansiwyd y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl newydd ym mis Mawrth 2021 ac mae'n dangos ein hymrwymiad parhaus i wella'r broses o gydnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys ychwanegu blaenoriaeth newydd

yn ymwneud ag addysg a chyflogaeth.

**Blaenoriaeth Un: Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl**

Rhaid i bob gofalwr di-dâl deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a’i gefnogi i wneud dewis ar sail gwybodaeth am y gofal y mae’n ei ddarparu, ac yn cael mynediad at y cymorth y mae ei angen wrth iddo ofalu a phan ddaw’r rôl ofalu i ben.

**Blaenoriaeth Dau: Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth**

Mae’n hanfodol bod gan ofalwyr di-dâl fynediad at yr wybodaeth a’r cyngor cywir ar yr adeg gywir ac mewn fformat priodol.

**Blaenoriaeth Tri: Helpu i fyw yn ogystal â gofalu**

Mae’n rhaid rhoi cyfle i bob gofalwr di-dâl gymryd seibiant o’i rôl ofalu i’w alluogi i ofalu am ei iechyd a’i lesiant ei hun a’i alluogi i fyw yn ogystal â gofalu

**Blaenoriaeth Pedwar: Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle**

Dylid annog cyflogwyr a lleoliadau addysg / hyfforddiant i addasu eu polisïau a’u harferion gan alluogi i ofalwyr di-dâl weithio a dysgu ochr yn ochr â gofalu.

---

Roedd y strategaeth hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu Siarter i Ofalwyr Di-dâl gyda'r nod o gytuno ar ganllawiau ymarfer gorau a diffinio rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, sefydliadau'r trydydd sector a gofalwyr di-dâl.

**Siarter i Ofalwyr Di-dâl**

Bydd y siarter yn helpu gofalwyr di-dâl i hunanadnabod a deall eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gobeithiwn y bydd y siarter yn helpu i herio canfyddiadau negyddol o wasanaethau statudol. Bydd yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf ac yn amlinellu'n glir safonau arfer da sy'n sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cymryd rhan fel partneriaid cyfartal ac yn cael llais yn y gwaith o ddatblygu polisi, cynllunio, ymchwil a hyfforddiant.

Gan weithio gyda’r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl, aethom ati i gynnull tri gweithgor i greu cynllun cyflawni ategol a'r Siarter newydd. Roedd aelodau'r grwpiau yn cynnwys gofalwyr di-dâl a sefydliadau sy'n gweithio gyda neu ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Nod y Siarter fydd sicrhau bod pob gofalwr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn cael y lefel o gymorth y mae ganddynt hawl iddo gan weithwyr proffesiynol, gwasanaethau a sefydliadau.

Mae'r Siarter yn cael ei datblygu, a bydd yn cael ei chyhoeddi i'w thrafod ymhellach gyda gofalwyr di-dâl. Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni ar 25 Tachwedd 2021.

## Yr Hirdymor

Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod tua 12% o boblogaeth Cymru yn ofalwyr di-dâl, ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif y gallai'r ffigur hwn gynyddu i 16% erbyn 2037. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gofalu am rywun am gyn lleied ag awr yr wythnos, ac ni fydd angen cymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf o bobl sy'n treulio ychydig iawn o amser yn gofalu am rywun. Fodd bynnag, mae gan Gymru'r gyfran uchaf o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos (nid oedd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gael adeg ysgrifennu hyn).

Ers dechrau pandemig Covid-19, mae nifer y gofalwyr yng Nghymru wedi cynyddu gan fod llawer mwy o bobl wedi ymgymryd â rôl gofalwr di-dâl am y tro cyntaf. Y llynedd, amcangyfrifodd Carers UK fod 196,000 o ofalwyr di-dâl newydd yng Nghymru ers dechrau'r pandemig. Nododd hefyd fod 4 o bob 5 gofalwr di-dâl (81%) yn darparu mwy o ofal na chyn y cyfyngiadau symud. Mae pob un o'n pedair blaenoriaeth genedlaethol newydd yn ystyried effaith Covid-19 ar fywydau gofalwyr di-dâl ac yn nodi y bydd y profiadau hyn yn llywio anghenion cymorth dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Rydym wedi gweithio gyda’r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr a'i Grŵp Ymgysylltu ategol i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni er mwyn helpu i gyflwyno'r Strategaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Mae'r cynllun yn ystyried anghenion hirdymor gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol, byddwn yn ailystyried y Cynllun Cyflawni i sicrhau ei fod yn ymateb i unrhyw newidiadau demograffig neu gymdeithasol sy'n effeithio ar fywydau gofalwyr di-dâl.

## Atal

Mae cefnogi gofalwyr yn fesur ataliol ar gyfer y gofalwr unigol ac ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae atal ac ymyrryd yn fuan yn hollbwysig, ac mae'r strategaeth yn ymateb i'r angen i gynnwys agweddau ataliol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn fwy effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus a symud darparwyr gwasanaethau allweddol, gan gynnwys y trydydd sector, tuag at fodel cymorth gwell ar gyfer gofalwyr di-dâl. Trwy fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn yn awr, bydd modd helpu i sicrhau bod mwy o ofalwyr di-dâl, a'r bobl sy’n derbyn gofal ganddynt, yn cael mynediad at wasanaethau cymorth hanfodol cyn i'r sefyllfa droi'n argyfwng. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau'r pwysau ar y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Nod ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yw creu Cymru sy'n ystyriol o oedran ac yn cynorthwyo pawb i fyw a heneiddio'n dda. Bydd y rhaglen waith hon yn cyd-fynd â'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r Cynllun Cyflawni, a bydd o fudd i bobl sy'n gofalu heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol o ofalwyr di-dâl.

## Integreiddio

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ategol yn darparu ffocws ar gyfer sicrhau bod cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl yn cael ei ymgorffori ym meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, bydd gwaith ar y cyd yn parhau gydag adrannau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, a meysydd polisi Cyflogadwyedd a Sgiliau, er mwyn sicrhau bod polisi a chamau gweithredu yn y dyfodol yn ymwneud â gofalwyr yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n ystyried yr effaith ar ofalwyr di-dâl o bob oed.

Mae amrywiaeth eang o feysydd polisi Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â'r polisi ar gyfer gofalwyr di-dâl hefyd; er enghraifft, llesiant ac iechyd meddwl, gan gynnwys polisi ar unigrwydd a theimlo'n ynysig; yr agenda Gwaith Teg, addysg a hyfforddiant, polisi economaidd, cyllid llywodraeth leol; a chymorth i bobl sydd ar incwm isel. Y rheswm syml am hyn yw'r ffaith bod gofalwyr di-dâl o bob math i'w gweld ym mhob grŵp economaidd-gymdeithasol mewn cymdeithas.

Hefyd, mae'n bwysig nodi'r gwaith parhaus a'r cysylltiadau ag ymrwymiadau a chynlluniau presennol Llywodraeth Cymru, megis Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol a mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd, y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, a'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ac ymrwymiad i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant. O safbwynt gofalwyr ifanc, mae hyn yn cynnwys parhau i gael eu cydnabod fel grŵp o ddysgwyr mwy agored i niwed.

Ni ellir ystyried unrhyw gamau i gefnogi gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd yn annibynnol ar bolisi ac ymarfer sydd wedi'u bwriadu ar gyfer yr unigolyn ag anghenion gofal. Nodir yn aml y bydd gwella'r broses o nodi a diwallu anghenion cymorth unigolion ag anghenion gofal a chymorth yn fanteisiol i'r gofalwr di-dâl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gan lawer o ofalwyr broblemau iechyd hefyd, a gallent fod ag anghenion gofal a chymorth eu hunain.

Yn unol â'r weledigaeth a nodir yn 'Cymru Iachach', cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer creu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig, rydym yn parhau i weithio tuag at ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gadw pobl yn iach trwy ragweld anghenion iechyd, atal salwch, a lleihau effeithiau iechyd gwael, yn ogystal â helpu pobl i gadw yn iach yn eu cartrefi eu hunain neu dderbyn gofal yn nes at y cartref.

Er mwyn helpu i nodi'r weledigaeth i sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac eraill yn gallu cynllunio ar gyfer adferiad yn dilyn Covid 19, cyhoeddwyd y Fframwaith ar gyfer Adferiad Gofal Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2021.

Bydd y broses o gyflwyno Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth, sy'n gosod safonau ar gyfer comisiynu ymarfer, lleihau cymhlethdod a newid gwaith comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau, hefyd yn galluogi'r sector i wireddu'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Cynllun Cyflawni ategol ar gyfer Gofalwyr yn nodi nifer o gamau gweithredu traws-lywodraeth penodol, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfraniad adrannau eraill y llywodraeth at wella canlyniadau ar gyfer gofalwyr di-dâl trwy eu polisïau a'u rhaglenni. Er enghraifft:

- Sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddarparu Strategaeth Ddigidol i Gymru.

- Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu polisi ehangach ym maes iechyd meddwl.
- Sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau manteisio i'r eithaf ar incwm a system budd-daliadau Cymru.

Nid yw'r rhain wedi'u cyfyngu i weithredoedd Llywodraeth Cymru, ond gallant fod yn ddibynnol ar weithredoedd a chynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn Whitehall, a gellir archwilio cyfleoedd i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru trwy ddeddfwriaeth y DU, lle bo angen a lle bo hynny'n briodol.

## Cydweithio

Mae cydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn hanfodol er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i ofalwyr di-dâl yn ein cymunedau.

Er bod dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i nodi ac ymateb i anghenion cymwys gofalwyr di-dâl, mae'n bosibl y bydd llawer o ffactorau ychwanegol y tu allan i hyn yn hanfodol er mwyn gwella iechyd a llesiant gofalwyr di-dâl. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn gofyn am waith gan ein partneriaid cyflawni yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.

Mae gan gyrff cyhoeddus ac eraill ddyletswydd i fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o gynllunio a darparu gwasanaethau, fel yr amlinellir yn Neddf 2014, trwy greu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er mwyn cyflwyno'r strategaeth a'i chynllun cyflawni yn llwyddiannus, bydd angen i gyrff cyhoeddus ym meysydd llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac eraill, gydweithio er mwyn pennu'r dulliau cyflawni mwyaf effeithiol ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr, wedi'u llywio gan eu Hasesiadau o Anghenion y Boblogaeth.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu a defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig ers ei sefydlu, ac ers 2018 bu'n ofynnol iddynt gynyddu a thargedu gwariant ar ofalwyr di-dâl, sy'n un o'r grwpiau buddiolwyr â blaenoriaeth. Er y bydd y Gronfa Gofal Integredig yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022, mae rhaglen ariannu ranbarthol newydd wedi'i datblygu, a bydd rhaglen aml-flwyddyn newydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2022, a fydd yn parhau i gynnwys angen i nodi a mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr di-dâl o bob oed. Unwaith eto, bydd hyn yn rhoi cyfle i ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys y trydydd sector, gydweithio â chyrff cyhoeddus.

Trwy ddatblygu Siarter i Ofalwyr Di-dâl, rydym yn symud tuag at, ac yn cefnogi, cyd-ddealltwriaeth o hawliau gofalwyr di-dâl a lefel y gwasanaeth y dylent ei dderbyn, yn enwedig yn ystod sefyllfaoedd cyffredin sy'n wynebu gofalwyr megis rhyddhau pobl o'r ysbyty neu eu derbyn i'r ysbyty ar frys.

Cyllid grant Llywodraeth Cymru i gefnogi gofalwyr di-dâl

Mae ein partneriaid yn y trydydd sector yn gwneud cyfraniad allweddol at ddarparu gwasanaethau hanfodol i ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Yn ogystal â darparu £2.6 miliwn dros dair blynedd (2020-23) i Gofalwyr Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac Age Cymru trwy ein Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer y Trydydd Sector, rydym yn parhau i weithio gyda Gofalwyr Cymru fel aelodau corfforaethol o raglen Cyflogwyr

Cymru dros Ofalwyr. Hefyd, rydym yn parhau i ddarparu £1 miliwn bob blwyddyn ar gyfer byrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalwyr yn y trydydd sector, yn ogystal â chyllid i gydweithio â phob un o'r 22 awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar brosiect cenedlaethol Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc.

## Cyfranogiad

Rhaid i ofalwyr gael eu hystyried a'u trin fel partneriaid cyfartal wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i'w cefnogi, gan ddatblygu egwyddorion 'llais a rheolaeth' sydd wedi'u hymgorffori'n ymarferol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r strategaeth yn ein hymrwymo i ddatblygu amrywiaeth o atebion sy'n galluogi awdurdodau lleol i gwblhau asesiadau statudol amserol ac effeithiol sy'n ymateb i anghenion unigol gofalwyr di-dâl.

Wrth ddatblygu ein Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, gofynnwyd am adborth gan amrywiaeth eang o leisiau a phrofiadau, gan gynnwys gofalwyr eu hunain. Roedd eu hymatebion yn llywio ein cynlluniau wrth symud ymlaen, ac yn dylanwadu ar natur ein blaenoriaethau gofalwyr cenedlaethol yn y dyfodol. Hefyd, cynrychiolwyd gofalwyr di-dâl yn y tri gweithgor a gynullwyd i ddatblygu'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni a chynnwys y Siarter.

Hefyd, rydym yn hwyluso ymgysylltiad rheolaidd â gofalwyr di-dâl, gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisi. Yn 2020/21, gwnaethom ariannu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i arwain y gwaith o ddatblygu a recriwtio i'r Grŵp Ymgysylltu Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr er mwyn cynorthwyo'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl. Mae aelodau o'r grŵp ymgysylltu yn cynnwys gofalwyr di-dâl a'r staff rheng flaen sy'n eu cefnogi o bob rhanbarth yng Nghymru. Hefyd, rydym yn ariannu Plant yng Nghymru i gynnal y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc o swyddogion gofalwyr ifanc proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol. Mae'r dulliau hyn yn sicrhau bod llais y gofalwr di-dâl yn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno polisïau, a byddant yn parhau i gael eu hariannu yn 2021/22.

Cyfrwng pwysig arall yw Rhwydwaith Gwella a Dysgu Swyddogion Gofalwyr yr awdurdod lleol, sy'n cynrychioli llais timau gofalwyr awdurdodau lleol. Hefyd, mae'n gweithredu fel cyfrwng ar gyfer gwybodaeth ac ymgysylltiad â phrosiectau a gweithgareddau gofalwyr gwahanol. Hefyd, trwy gynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (2020-23), mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn sy’n cynnwys cynrychiolwyr gofalwyr y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau llais cynrychiolwyr gofalwyr a dinasyddion drwy'r 'Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Defnyddwyr, Gofalwyr, y Trydydd Sector a Darparwyr' a sefydlwyd yn ystod hydref 2021. Bydd yn datblygu siarter ar gyfer holl aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; bydd cyd-gynhyrchu yn egwyddor allweddol, a bydd yn archwilio disgrifiadau rôl ar gyfer holl aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys partneriaid statudol a chadeiryddion y Byrddau, yn hytrach na disgrifiadau rôl defnyddwyr, gofalwyr, y trydydd sector ac aelodau sy'n ddarparwyr yn unig. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2022.

## Effaith

Datblygwyd y Strategaeth a'i Chynllun Cyflawni ar sail ymgysylltu â gofalwyr di-dâl a'u cynrychiolwyr trwy'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl a'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr, yn ogystal â'r adborth a ddefnyddiwyd trwy broses ymgynghori gyhoeddus y strategaeth.

Mae llawer o dystiolaeth ar gael yn ymwneud â phrofiadau gofalwyr di-dâl yng Nghymru, gan gynnwys effaith ddiweddar a pharhaus y pandemig a'r cyfyngiadau symud. Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni ategol yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o ganfyddiadau amrywiol mewn papurau ymchwil a thystiolaeth a luniwyd gan academyddion a sefydliadau gofal yn y trydydd sector.

Agorodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Pumed Senedd ei ymchwiliad i 'Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Gofalwyr' yn 2018. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor, Gofalu am ein dyfodol, yn 2019, ac ymatebodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Julie Morgan AS, i'r 31 argymhelliad. Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol newydd a'r Siarter yn ychwanegu at ymatebion y Dirprwy Weinidog i ymchwiliad y Pwyllgor hwn.

Mae'r strategaeth yn ymateb i'r dystiolaeth hon trwy ddarparu cyfarwyddyd lefel uchel ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud ledled y sector cyhoeddus i ddatblygu gwasanaethau cadarn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer gofalwyr di-dâl, ac mae wedi ymrwymo i wella'r gydnabyddiaeth o ofalwyr di-dâl yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r strategaeth, ochr yn ochr â'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni, yn rhoi neges glir i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynglŷn â'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi'n fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys camau i sicrhau cysondeb rhwng lefelau'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gwahanol.

## Costau ac arbedion

Cyn pandemig Covid, roedd Gofalwyr Cymru yn amcangyfrif bod gofalwyr di-dâl yn arbed £8.1 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn. Cyn 2020, roedd y swm hwn bron cymaint â holl gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol flynyddol £9 miliwn Llywodraeth Cymru. Pan ddechreuodd y pandemig yn y DU yn gynnar yn 2020, dangosodd gwaith ymchwil Gofalwyr Cymru fod y rhan fwyaf o'r 683,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru wedi arbed £33 miliwn i GIG Cymru bob dydd yn ystod y pandemig.

https://www.carersuk.org/wales/policy-resources-for-professionals/policy-library/covid-19-briefing-impact-on-unpaid-carers-in-wales

Bydd y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni ategol yn cael eu cyflwyno trwy ddefnyddio ffynonellau ariannu sy'n bodoli eisoes, ond byddwn yn ystyried yr angen am gyllid uniongyrchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gofalwyr di-dâl yn ôl y gofyn, a lle mae cyfleoedd yn codi i fanteisio ar ffynonellau newydd o gyllid gofal cymdeithasol neu gyllid adfer yn dilyn Covid.

O ystyried hawliau gofalwyr di-dâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gofalwyr di-dâl eisoes yn gallu derbyn cymorth gan gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol prif ffrwd. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau a gweithgarwch i gefnogi gofalwyr di-dâl yn parhau i ddeillio o'r setliad ariannu Llywodraeth Leol blynyddol - y Grant Cynnal Refeniw. Mae dyraniadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi'u nodi yn y setliad hwn, ond

fel y nodwyd uchod, gan fod llawer o feysydd eraill yn effeithio ar ofalwyr di-dâl, er enghraifft, cymorth tai, y dreth gyngor, mynediad i addysg, bydd llawer o gyllidebau llywodraeth leol eraill hefyd yn cael effaith ar gefnogi a diwallu anghenion gofalwyr di -dâl o bob oed.

Rydym wedi gweithio'n agos trwy'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl a'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr, gan gynnwys gyda llywodraeth leol a byrddau iechyd, i gytuno ar gamau a fydd yn ein helpu i gyflawni'r ymrwymiadau yn y strategaeth.

Mae cyllid prosiect gofalwyr uniongyrchol Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sy'n ychwanegu at y cyllid ar gyfer gwasanaethau statudol, er enghraifft, rydym yn darparu £2.6 miliwn dros dair blynedd (2020-23) i Gofalwyr Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac Age Cymru, trwy ein Cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Byddwn yn parhau i ariannu'r prosiect cerdyn adnabod cenedlaethol i ofalwyr ifanc trwy ddarparu £150,000 yn 2021-22, gan gydweithio ag awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Yn 2019/20, gwariwyd £7.891 miliwn trwy'r Gronfa Gofal Integredig yn uniongyrchol ar brosiectau a gwasanaethau i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae adroddiad blynyddol Cronfa Gofal Integredig 2019-20, a gyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2021, yn dangos sut mae gofalwyr di-dâl yn elwa ar y gronfa hon. Cyhoeddir yr adroddiad ar gyfer 2020-21 yn fuan.

### Mecanwaith

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni ym mis Tachwedd 2021, ac mae'n nodi camau gweithredu, amserlenni a mesurau clir ar gyfer monitro cynnydd.

Nid oes angen am ddeddfwriaeth gan Senedd Cymru.

Nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

### Crynodeb

Mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Mae'r siart llif a gyflwynir yn y Cynllun Hawliau Plant 2014 wedi'i gwblhau ac mae wedi pennu bod angen Asesiad Llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni ategol.

Dechreuodd y gwaith ar Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wrth ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021) a pharhaodd yn ystod cam drafftio'r Cynllun Cyflawni. Roedd canfyddiadau'r Asesiad yn llywio cynnwys y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni. Nodwyd nifer o feysydd lle byddai angen cymryd camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn buddion llawn arfaethedig y Strategaeth. Byddwn yn parhau i adolygu data ac ymchwil sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â phrofiadau gofalwyr

ifanc yng Nghymru dros oes y Cynllun Cyflawni, er mwyn llywio camau gweithredu newydd wrth i'r Cynllun esblygu a pholisïau sy'n cydfodoli i gefnogi gofalwyr di-dâl o bob oed.

Mae'r dystiolaeth a'r data a gasglwyd yn dangos y bydd y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau gofalwyr ifanc hyd at 18 oed. Ystyrir nad oes unrhyw effaith negyddol ar hawliau plant yn gysylltiedig â'r Cynllun.

## Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Wrth ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, aethom ati i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr unigol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ein cynllun strategol traws-lywodraethol a diwygio ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr.

Buom yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr i ddrafftio'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y Strategaeth, gan ymgysylltu â gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, trwy'r sefydliad trydydd sector, Plant yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhannwyd gwybodaeth am sut i ymateb trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bost. Lluniwyd fersiwn i bobl ifanc o'r ymgynghoriad gan Plant yng Nghymru. Lluniwyd fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r ymgynghoriad hefyd. Derbyniwyd 91 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae Crynodeb o'r Ymatebion wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â chynigion ar gyfer blaenoriaeth newydd sy'n canolbwyntio ar ymrwymiadau i wella profiadau gofalwyr ifanc mewn addysg a hyfforddiant, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn penodol yn ymwneud â'r heriau cyffredinol ar gyfer gofalwyr ifanc. Cafwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Cawsom nifer o ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, gan gynnwys Plant yng Nghymru, a hwylusodd weithdai gyda gofalwyr ifanc, a Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru. Roedd y themâu cyffredinol a ddeilliodd o'r ymatebion yn cynnwys:

- Anhawster yn cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol oherwydd eu bod yn ifanc ac nad yw eu rôl ofalu yn cael ei chydnabod.
- Mae angen help ar lawer o ofalwyr ifanc i nodi eu bod yn ofalwyr a gofyn am gymorth amserol. Soniodd ymatebwyr am ddiffyg hyfforddiant cyffredinol a phroffesiynol ar gyfer gweithwyr cyflogedig yn y sector iechyd a sectorau eraill i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a'r materion sy'n eu hwynebu.
- Nid yw gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc yn ateb y galw bob amser ac mae llawer yn pennu isafswm oedran, er enghraifft dros 8 oed, i gael mynediad at wasanaethau awdurdod lleol neu wasanaethau wedi'u comisiynu.
- Nid yw gofalwyr ifanc yn cymryd rhan fel mater o drefn mewn ymgynghoriadau neu benderfyniadau sy'n cynnwys y person y maent yn gofalu amdano.
- Adegau pontio allweddol ym mywyd gofalwr ifanc, er enghraifft; symud i addysg ôl-16. Mae angen sicrhau bod prosesau ar waith i ddarparu cymorth effeithiol yn ystod cyfnod pontio'r gofalwr ifanc i fod yn ofalwr sy'n oedolyn ifanc, waeth a yw'n aros mewn addysg neu'n chwilio am waith.

- Er bod pwyslais mawr wedi'i roi ar bwysigrwydd rôl yr ysgol wrth gefnogi gofalwyr ifanc, a'r ffaith bod athrawon ysgol ac aelodau staff eraill yn gallu darparu cymorth ac ymyriadau cadarnhaol, mae perygl o hyd na fydd gofalwr ifanc yn gwireddu ei botensial.

Mae dulliau ymateb y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ategol i'r materion hyn wedi'u nodi'n fanylach isod.

## Effaith bosibl y cynnig ar blant a phobl ifanc (hyd at 18 oed)

Gofalwyr ifanc yw pobl ifanc dan 18 oed sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl sydd angen cymorth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlinellu hawliau clir iawn ar gyfer gofalwyr o bob oed, ac mae hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc. O dan y ddeddfwriaeth, ystyr 'gofalwr' yw ‘ person sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl’. Nid yw'r gair 'gofalwr ifanc' yn ymddangos yn y ddeddfwriaeth, ond mae'r term "gofalwr sy'n blentyn" yn ymddangos, er nad yn y diffiniadau. Ystyr "plentyn" yw person o dan 18 oed, felly byddai "gofalwr sy'n blentyn" yn ofalwr o dan 18 oed.

Mae gofalwyr ifanc yn ymwneud â gofal emosiynol ac ymarferol aelodau o'r teulu a ffrindiau, gan gynnwys rhieni, neiniau a theidiau a brodyr a chwiorydd, lle mae gan frodyr a chwiorydd anghenion gofal, a/neu oherwydd nad yw rhieni yn gallu diwallu eu hanghenion. Gall eu cyfrifoldebau gynnwys gorchwylion domestig, cyfrifoldebau ariannol, cymorth emosiynol a seicolegol, gofal plant, a chymorth gyda symudedd, poen neu anghysur, a helpu gyda meddyginiaeth neu ofal personol fel hylendid (Clay et al., 2016).

Mae'n gallu bod yn anodd casglu data ar ofalwyr ifanc gan fod llawer o setiau data yn diffinio gofalwr ifanc fel rhywun o dan 16 oed, ac mae'n bosibl y bydd dosbarthiad gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn gorgyffwrdd. Yng Nghodau Ymarfer cysylltiedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae Rhan 3 yn trafod cwblhau asesiad o anghenion gofalwr sy'n berson ifanc, a nodir bod gofalwr sy'n oedolyn ifanc yn unigolyn rhwng 16 a 25 oed.

Yn ôl Cyfrifiad y DU 2011, Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn y DU. Yn 2011, roedd cyfanswm o 29,155 o ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gan gynnwys:

- 7,544 o bobl ifanc o dan 16 oed, a
- 21,611 o bobl ifanc 16-24 oed.

O'r 7,544 o ofalwyr ifanc o dan 16 oed, roedd 1,613 o blant yn darparu mwy nag 20 awr o ofal yr wythnos. Nodwyd bod 801 yn darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu ei bod yn debygol bod llawer mwy o bobl ifanc na wyddom amdanynt yn gwneud gwaith gofal, a bod y nifer wedi cynyddu yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, yn enwedig pan oedd y rhai â chyfrifoldebau gofal yn methu mynd i'r ysgol oherwydd cyfyngiadau symud cenedlaethol. Fodd bynnag, nododd rhai gofalwyr fod eu perthynas ofal wedi gwella trwy dreulio mwy o amser gyda'r sawl y maent yn gofalu amdano.

Mae cyfrifoldebau gofal yn rhoi boddhad mawr i bobl ifanc yn aml, gan ddod â manteision emosiynol a seicolegol. Ond mae gwaith gofal yn gallu rhoi straen ar gyfranogiad addysgol a chymdeithasol gofalwyr ifanc. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried yn fanylach isod.

### Effaith y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ar blant a phobl ifanc sy'n darparu gofal di-dâl

*Mae llawer o'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 4 yn canolbwyntio'n benodol ar ofalwyr ifanc. Mewn llawer o achosion, bydd y camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 4 yn cydweithio â'r camau gweithredu o dan y tair blaenoriaeth arall. Bydd camau gweithredu yn cyfrannu at ymrwymiadau blaenoriaethau lluosog mewn meysydd eraill hefyd. Rydym wedi cynnwys y rhain o dan bob blaenoriaeth lle bo hynny'n briodol.*

**Blaenoriaeth 1: adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl**

***Themâu:***

- **Gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl**
- **Codi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl**
- **Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella asesiadau gofalwyr**

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n ymgymryd â rôl ofalu.

### Rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr ifanc

Mae peidio â chael eu cydnabod fel gofalwyr ifanc yn gallu arwain at anawsterau, er enghraifft wrth gasglu meddyginiaeth i'r rhai sy’n derbyn gofal ganddynt, neu wrth gael mynediad at gludiant neu siopa. Mae llawer yn ei chael hi'n anodd iawn yn amgylchedd yr ysgol pan nad yw athrawon neu staff eraill yn yr ysgol yn deall neu'n ystyried rhai o'r pwysau ymarferol ac emosiynol. Hefyd, gallan nhw gael eu bwlio neu boeni am deimlo stigma os yw pobl eraill yn gwybod am eu rôl ofalu.

Mae gwaith ymchwil wedi awgrymu bod llawer mwy o bobl ifanc na'r nifer a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn debygol o fod â chyfrifoldebau gofal. Mae'r rhesymau posibl am fethu â nodi'r unigolion hyn yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr addysg a gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys gwasanaethau iechyd; ac amharodrwydd gofalwyr ifanc i ofyn am gymorth gan eu bod yn poeni am ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol neu hyd yn oed yn poeni am gael eu bwlio gan eu cyfoedion neu blant eraill mewn ysgolion a lleoliadau cymdeithasol. Gall hyn godi'n aml pan fydd gofalwyr ifanc yn gofalu am oedolion sydd â dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol. Mae'r rhieni a'r gofalwr ifanc yn poeni y gallai'r plentyn gael ei symud o'r teulu, neu y byddant yn wynebu "ymyrraeth" gan weithwyr cymdeithasol.

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr di-dâl a diwallu eu hanghenion cymorth cymwys. Yn 2018, cwblhaodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Pumed Senedd ymchwiliad i

effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ofalwyr o bob oed. Nododd tystiolaeth a ddarparwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru nad yw llawer o bobl ifanc eu hunain yn cydnabod pwysau bod yn ofalwr, gan fod y cyfrifoldeb yn rhan o'u bywydau bob dydd. Nid oedd plant a phobl ifanc yn benodol yn nodi eu bod yn ofalwyr os oedd gofalwr arall sy'n oedolyn yn y tŷ. Roedd canlyniadau ein hymgynghoriad yn ategu'r canfyddiadau hyn, gyda gofalwyr ifanc yn nodi diffyg cydnabyddiaeth gan eraill y tu allan i'r ysgol neu'r cartref.

Comisiynodd Gofal Cymdeithasol Cymru y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth i gynnal adolygiad desg o dystiolaeth yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y rhwystrau a'r galluogwyr i gael asesiad o anghenion gofalwyr yn ogystal â phrofiadau'r rhai sydd wedi cael asesiad. Nododd yr adolygiad fod y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth mewn perthynas ag asesiadau o anghenion gofalwyr yn ymwneud ag oedolion yn hytrach na gofalwyr ifanc. O'r herwydd, daeth y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth i'r casgliad nad yw natur asesiad o anghenion gofalwyr ifanc yn eglur eto (a gallai fod wedi newid ers dechrau'r pandemig), yn enwedig o ystyried yr effaith ar addysg a'r cyfraniad at nodi a chefnogi gofalwyr ifanc. Gall hyn olygu nad yw gwybodaeth neu gymorth a fwriedir ar gyfer gofalwyr di-dâl yn ymddangos yn berthnasol i ofalwyr ifanc.

Nododd Adolygiad Thematig Estyn – Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru (2019) fod diffyg data dibynadwy ar gael i nodi faint o ofalwyr ifanc sydd mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a cholegau ledled Cymru. Nid yw llawer o ddarparwyr yn gwybod pa ddisgyblion a dysgwyr sydd â rôl ofalu. Un o ganlyniadau hyn yw'r ffaith bod y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion yn amrywio'n sylweddol. Mae ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n diwallu anghenion gofalwyr ifanc mewn ffordd effeithiol yn gweithredu systemau cadarn i adnabod y dysgwyr hyn. Mae nifer fach o gynlluniau gwobrwyo ar gael sy'n darparu adnoddau a phecynnau cymorth defnyddiol ar gyfer ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion er mwyn llunio eu darpariaeth i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, mae gormod o ddarparwyr yn methu â'u defnyddio. Gwnaeth yr adolygiad 8 argymhelliad gan gynnwys un ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chasglu data cenedlaethol mwy dibynadwy ar ofalwyr ifanc.

https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/darpariaeth-ar-gyfer-gofalwyr-ifanc-mewn-ysgolion-uwchradd-colegau-addysg

### Effaith gadarnhaol arfaethedig y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 yn ceisio codi ymwybyddiaeth gofalwyr di-dâl o bob oed o'r ffaith bod cymorth ariannol, emosiynol ac ymarferol ar gael os ydynt yn nodi eu bod yn ofalwyr.

Mae rhaglenni Gwobrau Ysgolion wedi llwyddo i wella ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc, ac mae staff ysgol yn gwybod mwy am anghenion gofalwyr ifanc wrth ddarparu cymorth bugeiliol ymarferol ac emosiynol. Mae mentrau sy'n codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a lleoliadau iechyd, er enghraifft meddygfeydd meddygon teulu, wedi llwyddo i adnabod gofalwyr ifanc a'u

hatgyfeirio at wasanaethau eraill i gael asesiad a chymorth. Mae camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys rhannu arferion a dysgu da o gynlluniau o'r fath ledled awdurdodau lleol er mwyn eu datblygu a'u cyflwyno'n ehangach.

Camau Gweithredu

- Adolygu argaeledd ac effaith cynlluniau achredu cyfredol, fel y Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, y Cynllun Cyfeillgar i Ofalwyr a rhaglen Gofalwyr Ifanc yn yr Ysgol a nodi bylchau ac archwilio opsiynau i ddatblygu a rhannu arferion gorau.
- Drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, ariannu a darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gofalwyr, gan weithio gyda staff ar bob lefel o systemau gofal cymdeithasol ac iechyd i godi ymwybyddiaeth o hawliau, rhannu arferion da ac annog cyd-gynhyrchu.

Mae'r angen am negeseuon wedi'u teilwra i gyrraedd a chefnogi gofalwyr ifanc yn benodol wedi'i gydnabod yn y Cynllun Cyflawni hefyd. Bwriad camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfraniad pwysig gofalwyr di-dâl o bob oed. Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda gofalwyr ifanc a'u cynrychiolwyr i herio unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â'u rôl ofalu.

Camau Gweithredu

- Gweithio gyda gofalwyr di-dâl sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau byw, a sefydliadau cynrychioliadol i sicrhau bod negeseuon yn hygyrch i ystod eang o bobl. Er enghraifft yn Gymraeg, mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, yn Iaith Arwyddion Prydain, fel copi sain neu braille, hawdd ei ddarllen, ac mewn fformatau sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i feddwl yn greadigol am sut y gallwn ni hyrwyddo negeseuon mewn llefydd lle bydd ystod eang o ofalwyr di-dâl yn gallu cael gafael arnynt. Er enghraifft, amgylcheddau dysgu, clybiau ieuenctid/cymdeithasol, siopau lleol a busnesau preifat, canolfannau cymunedol ac ati.
- Cydweithio i bennu cyfres o egwyddorion iaith i'w defnyddio ar gyfer pob agwedd ar ofal di-dâl, cymorth a chodi ymwybyddiaeth. Fel rhan o'r gweithredu hwn byddwn yn:
    - Sicrhau bod yr egwyddorion yn crisialu'r angen sylfaenol i lawer o bobl o allu cael gafael ar wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
    - Sicrhau bod yr egwyddorion yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod cyfathrebu'n hawdd a hwylus i ofalwyr di-dâl gydag amrywiaeth eang o brofiadau byw, gofynion iaith ac anghenion cyfathrebu hygyrch.
    - Osgoi iaith sy'n stigmateiddio a blaenoriaethu'r berthynas ofalu rhwng y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal ganddo lle bo'n bosibl (e.e. aelod o'r teulu, ffrind, cymydog).

Gall eiriolaeth a grymuso gynnwys cyd-gynhyrchu a sicrhau bod gofalwyr ifanc yn helpu i lunio gwasanaethau a pholisi. Mae galluogi gofalwyr ifanc i helpu i gynllunio gwasanaethau yn gallu cynyddu ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol, ac mae'n gallu datblygu gwydnwch a hyder gofalwyr ifanc.

Mae Blaenoriaeth 1 yn cynnwys yr ymrwymiad i fuddsoddi mewn mecanweithiau sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl i leisio eu barn ar lefel genedlaethol, leol a rhanbarthol. Byddwn yn gwneud hyn drwy adolygu aelodaeth o'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr ar lefel Cymru i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cynrychioli. Mae'r grŵp ymgysylltu yn ategu'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl ac mae'n gweithredu fel mecanwaith i sicrhau bod llais a phrofiad gofalwyr yn cael eu clywed yno. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru i ddatblygu mecanweithiau mwy uniongyrchol a rheolaidd ar gyfer cyfathrebu â gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc er mwyn clywed am eu pryderon, eu

profiadau cadarnhaol a rhannu gwybodaeth.

Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i rannu enghreifftiau o ymarfer da gan eu paneli ymgysylltu neu grwpiau llywio rhanbarthol a lleol er mwyn sicrhau bod cynnwys llais a phrofiad gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn rhan annatod o ddatblygu a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys yr argymhellion a gafodd eu gwneud yn 2019 gan adroddiad adolygiad Thematig Estyn.

Camau Gweithredu

- Adolygu aelodaeth y Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr i sicrhau ei fod yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o brofiadau gofalwyr.
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau mewn perthynas â phaneli ymgysylltu â gofalwyr rhanbarthol neu grwpiau llywio sy'n hwyluso cynnwys llais a phrofiad gofalwyr wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.
- Adolygu'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiad sbotolau y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mehefin 2021 ac archwilio sut y gellir gweithredu'r awgrymiadau a wnaed i gefnogi cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl.
- Parhau i ariannu a darparu hyfforddiant cynrychioli gofalwyr a hyfforddiant hunaneiriolaeth gofalwyr drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Mae'r ymrwymiad o dan Flaenoriaeth 1 i ddatblygu ystod o atebion sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu asesiadau o anghenion amserol ac effeithiol yn cynnwys gofalwyr ifanc. Byddwn yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr astudiaeth SCIE ac adroddiadau Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar anghenion a phrofiadau gofalwyr ifanc, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith ymchwil a setiau data eraill yn bodoli i lenwi'r bwlch tystiolaeth sy'n gysylltiedig â phrofiadau gofalwyr ifanc o asesiadau o'u hanghenion, ac i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu cael mynediad at asesiad sy'n ymateb i'w hanghenion.

Cam Gweithredu

- Defnyddio'r canfyddiadau o ymchwil SCIE a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Prosiect Datblygu Data Iechyd Cyhoeddus Cymru, a data o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella i benderfynu pa gamau gweithredu penodol sydd eu hangen i wella'r nifer sy'n cael asesiadau o anghenion gofalwyr.

## Blaenoriaeth 4

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 4 yn pwysleisio pwysigrwydd adnabod gofalwyr ifanc mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ysgolion yn gwneud cyfraniad allweddol at adnabod gofalwyr ifanc gan fod staff ysgolion mewn cysylltiad cyson â phobl ifanc. Mae ysgolion mewn sefyllfa dda i adnabod gofalwyr ifanc, eu cyfeirio i wasanaethau eraill a hysbysu teuluoedd am eu hawliau. Nod yr ymrwymiad o dan Flaenoriaeth 4 i **annog awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth i adnabod gofalwyr ifanc yw gwella ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a galluogi staff ysgolion i wybod mwy am eu hanghenion, er mwyn helpu gofalwyr ifanc i gael gafael ar gymorth ymarferol ac emosiynol. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun Cyflawni i'n helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn cynnwys:**

Camau Gweithredu

- Hyrwyddo hyrwyddwyr gofalwyr ifanc ysgol unigol a hyrwyddo arferion gorau, er enghraifft fel y nodwyd gan Adolygiad Thematig Estyn 2019.

- Datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr ysgol ar draws rhanbarthau. Annog hyrwyddwyr i fabwysiadu dull 'ysgol gyfan'.
- Hyrwyddo newid diwylliannol a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy'n oedolion ymysg gweithwyr addysg proffesiynol a'u hanghenion am gymorth a chefnogaeth, a'u cyfeirio at wasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau gofalwyr a gomisiynir.
- Cyfleoedd addysg bellach ac addysg uwch i gefnogi mynediad gofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy'n oedolion at ddysgu. Defnyddio adnoddau presennol i helpu i hyrwyddo adnabod gofalwyr gan gyrff a darparwyr addysg, a nodi anghenion ymhlith gweithwyr proffesiynol am ddeunyddiau gwybodaeth / adnoddau neu hyfforddiant ar-lein newydd.

Mae cardiau adnabod Gofalwyr Ifanc yn galluogi gofalwyr ifanc i hysbysu ysgolion a gwasanaethau eraill eu bod yn ofalwyr, yn ogystal ag amlygu cyfrifoldebau gofalwyr mewn argyfwng. Mae sicrhau bod ein Cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc cenedlaethol yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus yn un o gamau gweithredu Blaenoriaeth 4, a'i fwriad yw helpu mwy o ofalwyr ifanc i nodi bod ganddynt y statws hwn a gwella cydnabyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol a'r boblogaeth ehangach gan gynnwys plant a phobl ifanc.

- Hyrwyddo'r broses o adnabod gofalwyr ifanc drwy brosiect cerdyn adnabod gofalwyr ifanc cenedlaethol a gyd-gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac adnoddau cenedlaethol a gynhyrchir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru: https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/young-carers-id-card-welsh. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cerdyn mewn ysgolion a cholegau.

## Blaenoriaeth 2: darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth

***Themâu***

- **Codi ymwybyddiaeth o sut i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth**
- **Mynd i'r afael â'r gagendor digidol**

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n darparu gofal di-dâl.

### Rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr ifanc

Trwy dderbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol ar yr adeg gywir, mae gofalwyr ifanc yn gallu sicrhau eu llesiant a chyflawni eu canlyniadau personol, yn hytrach na wynebu argyfwng. Hefyd, mae gofalwyr o bob oed yn llai tebygol o fod angen asesiad a chymorth mwy ffurfiol os ydynt wedi gallu derbyn cymorth anffurfiol yn gynharach yn y daith ofalu. Mae cymorth ataliol i hyrwyddo llesiant gofalwyr a llesiant unigolion ag anghenion gofal yn elfen sylfaenol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.

Gall gofalwyr ifanc sy'n methu cael gafael ar wybodaeth neu gymorth digonol ddatblygu iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael, wynebu anawsterau yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith ysgol a chyfrifoldebau gofal, neu fethu â pharhau â rhai agweddau ar eu rôl ofalu. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai am roi'r gorau i'w cyfrifoldebau gofal ond nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny.

Yn anffodus, prin yw'r gwaith ymchwil sydd wedi'i wneud yn ymwneud ag effeithiolrwydd darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr ifanc o dan 18 oed ar hyn o bryd. Yn ôl yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae pobl o'r farn fod gwasanaethau cymorth yn canolbwyntio gormod ar oedolion ac nad ydynt yn addas

i'r oedran bob amser.

Ym mis Mehefin 2020, cwblhaodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru arolwg o 366 o ofalwyr rhwng 12 a 25 oed i ddeall eu profiadau o fyw a gofalu yn ystod y pandemig. Dywedodd 14% o ofalwyr ifanc a ymatebodd i'r arolwg (y rhai dan 18 oed) y byddent yn hoffi cael rhagor o wybodaeth a chyngor neu awgrymiadau ymarferol i'w helpu i ymdopi, ac roedd 1 o bob 5 gofalwr ifanc eisiau derbyn cymorth i'w helpu i gadw'n iach. Er gwaethaf yr effaith y mae mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi'i chael ar allu gwasanaethau i weithio'n uniongyrchol gyda gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n bobl ifanc, dangosodd yr arolwg fod 69% o ofalwyr ifanc a oedd yn defnyddio gwasanaethau cyn y pandemig yn parhau i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

Fel rhan o'i ymchwiliad yn 2018, nododd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Pumed Senedd nad oedd asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc yn cael eu cynnal ledled Cymru fel mater o drefn, a bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth o asesiadau o anghenion gofalwyr ymysg y gofalwyr ifanc a fynychodd weithdai gofalwyr ifanc yr ymchwiliad.

Nododd nifer o ymatebion i'n hymgynghoriad bod rhai gofalwyr ifanc yn methu cael gafael ar ddyfeisiau digidol i wneud eu gwaith ysgol, cymryd rhan mewn dysgu ar-lein, neu dderbyn cymorth. Hefyd, gallai rhai gofalwyr ifanc orfod rhannu dyfeisiau gydag aelodau o'r teulu a brodyr a chwiorydd. Dylai graddfa'r sefyllfa hon fod wedi lleihau ers dechrau'r pandemig ar ôl i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnodau hir o gyfyngiadau symud cenedlaethol neu leol. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer pob disgybl yng Nghymru hyd at 16 oed, er mwyn sicrhau bod ganddynt ddyfais ddigidol i barhau â'u hastudiaethau ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae colegau AB wedi ceisio darparu cymorth hefyd, gan gynnwys cymorth digidol ar gyfer myfyrwyr sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gofalwyr nad ydynt mewn lleoliadau ysgol yn parhau i wynebu anawsterau, a chost y pecyn data yw'r rhwystr yn aml. Felly, mae gagendor digidol yn parhau.

### Effaith gadarnhaol arfaethedig y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni

Y broses o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol yw camau cyntaf hanfodol dull ataliol, a nod Blaenoriaeth 2 yw sicrhau bod gofalwyr di-dâl o bob oed yn gallu derbyn yr wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg gywir, ac mewn fformat priodol. Bydd Llywodraeth Cymru a'n partneriaid cyflawni yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried anghenion gofalwyr ifanc wrth gymryd a monitro camau gweithredu i wella gwybodaeth, cyngor a chymorth, er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac wedi'u teilwra iddynt. Mae gofynion llymach ar waith ar gyfer cyrff sy'n darparu gwybodaeth i'w defnyddio'n uniongyrchol gan blant, yn ogystal â'r angen i sicrhau eu bod yn defnyddio mathau priodol o iaith, yn cyflwyno gwybodaeth mewn fersiynau hawdd eu darllen neu ar gyfer y rhai sydd ag anableddau dysgu neu gorfforol, mewn fformatau amgen. Mae'r un gofynion yn berthnasol i ofalwyr sy'n oedolion.

Mae enghreifftiau o dan Flaenoriaeth 2 yn cynnwys:

<u>Camau Gweithredu</u>

- Adolygu hybiau gwybodaeth a chymorth a llinellau cymorth lleol a chenedlaethol er mwyn archwilio opsiynau i hyrwyddo a rhannu arferion gorau’n ehangach. Mae enghreifftiau’n cynnwys llinell gyngor genedlaethol Gofalwyr Cymru, Hyb Gofalwyr Gwent a Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Ceredigion.

- Rhannu arferion gorau ar sut mae sefydliadau'n darparu adnoddau, canllawiau a chyfeiriadau mewn lleoliadau sy'n hygyrch i ystod eang o ofalwyr di-dâl, yn cynnwys unigolion sy'n llai tebygol o nodi eu hunain yn ofalwyr di-dâl. Gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau sy'n derbyn y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd lle nad yw rhai cohortau o ofalwyr di-dâl yn cael eu cyrraedd o bosibl.

Gall cymorth technolegol fel ffordd o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr ifanc gynnwys apiau, gwefannau, a llinellau ffôn a thestun. Gall rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol ddarparu cymuned ar-lein hefyd, gan gynnig cyngor a chymorth, a rhannu gwybodaeth yn hawdd. Ledled Cymru, ceir enghreifftiau o ddefnyddio technoleg i ddarparu gwybodaeth leol a phenodol i ofalwyr ifanc, ac o ddatblygu rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol i ddarparu cymorth gan gymheiriaid a gwybodaeth am sut i gael cymorth arbenigol. Cafodd y dulliau hyn eu mabwysiadu a'u datblygu yn amlach o lawer mewn ymateb i'r pandemig er mwyn addasu i'r cyfyngiadau ac atal gwasanaethau wyneb yn wyneb am resymau diogelwch y cyhoedd, gan gynnwys gwasanaethau gofalwyr ifanc statudol ym mhob awdurdod lleol.

Nod y Cynllun Cyflawni yw datblygu'r dulliau hyn er mwyn ymestyn cyrhaeddiad cynlluniau o'r fath.

Cam Gweithredu

- Rhannu arferion gorau cynlluniau lleol gan ddarparu cyfarpar, adnoddau a sgiliau TG a chymorth i helpu gofalwyr di-dâl i ddefnyddio technoleg er mwyn cynnal eu lles eu hunain a'r rhai sy'n derbyn gofal ganddynt.

## Blaenoriaeth 1

Mae yna orgyffwrdd sylweddol â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol ac adnabod gofalwyr ifanc. Bydd y nodau o dan Flaenoriaeth 1 i wella'r broses o gydnabod ac adnabod gofalwyr ifanc yn sicr o helpu i ddarparu gwasanaeth cyfeirio a chymorth addas i'r oedran. Yn ogystal â helpu gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr i adnabod gofalwyr ifanc, bydd camau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth i hysbysu teuluoedd am y cymorth sydd ar gael iddynt.

Camau Gweithredu

- Adolygu'r cyfoeth o opsiynau hyfforddiant a gynigir ledled Cymru ar hyn o bryd, nodi bylchau ac archwilio opsiynau i ddatblygu a rhannu enghreifftiau o arferion gorau i gefnogi gweithwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol. Fel rhan o'r adolygiad uchod, archwilio cynnwys modiwlau ar anghenion y Gymraeg, a phwysigrwydd nodi a diwallu anghenion grwpiau ymylol a rhai na chlywir ganddynt yn aml, a gofalwyr ifanc.
- Archwilio opsiynau i gynnwys hyfforddiant cyn ac ôl gymhwyster a Datblygiad Proffesiynol Parhaus i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i'w helpu i nodi a diwallu anghenion gofalwyr di-dâl.

## Cymorth presennol

Mae nifer o wasanaethau statudol a gwirfoddol eisoes yn darparu cymorth rhagorol i ofalwyr ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn bodloni trothwyon cymorth gofal cymdeithasol. Awdurdodau lleol sydd â dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau sy'n gyfrifol am ariannu gwasanaethau cymorth i ofalwyr, a gall gwasanaethau o'r fath gael eu darparu gan y trydydd sector neu'n fewnol gan ddefnyddio gweithwyr awdurdodau lleol. Mae'r cymorth sy'n cael ei ddarparu yn cynnwys mentora, cwnsela, grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid, cyfeillio, darparu

gweithiwr allweddol penodedig, grwpiau gwaith cartref ac astudio, a gwibdeithiau/gweithgareddau cymdeithasol. Mae gwasanaethau gofalwyr ifanc yn darparu tair lefel o gymorth:

- Gwybodaeth trwy wefan, cylchlythyrau a mynediad at fforwm wedi'i reoli ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gwybod sut i gael cymorth os yw eu hanghenion cymorth yn cynyddu.
- Cofrestru gyda'r sefydliad fel aelod, ond peidio â mynychu grŵp neu gael mynediad at wasanaethau yn weithredol.
- Cofrestru gweithredol gyda'r sefydliad, mynychu prosiectau, teithiau, gweithgareddau a derbyn cymorth un i un.

Bydd cyllid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer cynlluniau sy'n cefnogi gofalwyr ifanc yn parhau drwy gydol oes y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen rhoi rhagor o ystyriaeth i gasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i wella a diwallu anghenion gwybodaeth, cyngor a chymorth gofalwyr ifanc.

## Blaenoriaeth 3: helpu i fyw yn ogystal â gofalu

**Themâu**

- **Gwella mynediad i wyliau byr a seibiannau**
- **Ehangu mynediad at gymorth seicolegol**

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n darparu gofal di-dâl.

### Rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr ifanc

Mae'n annhebygol y bydd angen cymorth gan wasanaethau ffurfiol ar lawer o ofalwyr ifanc gan eu bod yn rheoli eu rôl ofalu heb ormod o anhawster. Mae hyn yn berthnasol iawn i bobl sydd ond yn treulio amser cymharol fach yn darparu gofal. O'r 7,544 o ofalwyr 0-15 oed a nodwyd trwy Gyfrifiad 2011, roedd tua 78% yn darparu 1-19 awr o ofal yr wythnos. Roedd 802 yn darparu 50 awr yr wythnos neu fwy o ofal, sy'n cynrychioli 0.14% o blant yng Nghymru.

Fodd bynnag, er bod darparu gofal yn gallu bod yn waith pleserus a gwerth chweil yn aml, mae'n gallu bod yn heriol iawn hefyd, ac mae perygl y bydd gofalwyr ifanc yn esgeuluso eu hanghenion a'u llesiant eu hunain. Gan amlaf, mae gofalwyr o bob oed yn rhoi blaenoriaeth i anghenion yr unigolyn y maent yn gofalu amdano, a gall hynny arwain at sefyllfa o argyfwng, yn enwedig os yw mesurau iechyd ataliol wedi'u hatal. Mae llawer o ofalwyr ifanc yn nodi eu bod yn teimlo dan straen o ganlyniad i boeni am lesiant y sawl sy'n derbyn gofal.

Mae gwaith ymchwil wedi canfod bod llawer o ofalwyr ifanc yn siarad am deimlo'n flinedig ac o dan bwysau. Mae llawer yn wynebu newidiadau bywyd trawmatig fel profedigaeth, teulu yn chwalu, colli incwm neu dai, a gweld effeithiau salwch neu gaethiwed ar yr unigolyn y maent yn gofalu amdano. Mae cyfuniad o'r holl ffactorau hyn, ochr yn ochr â phwysau yn yr ysgol neu'r coleg ac ynysigrwydd cymdeithasol, yn gallu arwain at straen, pryder ac iselder (Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, 2018). Yn ôl gwaith ymchwil gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Phrifysgol Nottingham

yn 2013, nododd bron i draean o'r gofalwyr ifanc a holwyd (29%) fod eu hiechyd corfforol eu hunain yn 'iawn', a dywedodd 38% fod ganddynt broblem iechyd meddwl.

Yn ôl arolwg mwy diweddar gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn 2020, dywedodd 37% o ofalwyr ifanc fod eu hiechyd meddwl yn waeth nag yr oedd cyn i'r pandemig ddechrau, a nododd 20% o ofalwyr ifanc ei bod yn anodd iddynt gael gafael ar unrhyw gymorth emosiynol. Nid oedd 1 o bob 5 gofalwr ifanc yn gallu cael unrhyw seibiant o'u rôl ofalu. Gall seibiannau fod yn fuddiol iawn i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gan roi amser iddynt adfywio a gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Nododd 15% o ofalwyr ifanc fod treulio amser i ffwrdd o'r person y maent yn gofalu amdano wedi eu helpu i allu ymdopi yn ystod y cyfyngiadau symud.

Mae teuluoedd â gofalwyr ifanc yn fwy tebygol o wynebu tlodi, felly mae'n bwysig nad oes angen cyfraniadau personol ar gyfer opsiynau seibiant byr i gefnogi bywydau cymdeithasol gofalwyr ifanc. Gall trafnidiaeth rwystro gofalwyr ifanc rhag manteisio ar yr opsiynau hyn hefyd (LGA 2018).

**Effaith gadarnhaol arfaethedig y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni**

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn cydnabod bod opsiynau seibiant a gwyliau byr hyblyg yn gallu bod yn elfen hanfodol o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr ifanc i ymdopi â'u rôl ofalu, a'u bod yn gallu lleihau cyfrifoldebau gofalu dros dro. Bydd yr ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 3 i wella mynediad at opsiynau gwyliau byr yn caniatáu i ofalwyr ifanc fwynhau cyfleoedd cymdeithasol gyda'u cyfoedion neu eu teuluoedd, gwella'r cydbwysedd yn eu bywydau rhwng cyfrifoldebau gofal a mwynhau plentyndod, a bywyd teuluol y tu allan i rôl ofalu.

Mae gan ofalwyr ifanc a'u teuluoedd agwedd gadarnhaol at seibiannau a gweithgareddau, ac maent yn cael eu disgrifio yn aml fel cyfleoedd i roi eu plentyndod yn ôl i blant (Donnellan, 2017). Byddwn yn ystyried sut y gallwn gyflwyno argymhellion yr adroddiad 'Pa wahaniaeth y mae seibiant yn ei wneud: gweledigaeth ar gyfer dyfodol seibiannau byr i ofalwyr di-dâl yng Nghymru' a sicrhau bod opsiynau gwyliau byr ar gael sy'n addas i'r oedran ac yn cynorthwyo gofalwyr ifanc i sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol.

Cam Gweithredu

- Adolygu argymhellion a 12 egwyddor adroddiad Pa wahaniaeth y mae seibiant yn ei wneud: gweledigaeth ar gyfer dyfodol seibiannau byr i ofalwyr di-dâl yng Nghymru a chydweithio i gytuno ar lwybr gweithredu.

Mae gwyliau byr i'r teulu cyfan yn rhoi amser i deuluoedd a gofalwyr ifanc ddatblygu perthynas ac yn gyfle iddynt dreulio amser gyda'i gilydd mewn cyd-destun hamdden lle mae unrhyw anghenion anabledd yn cael eu diwallu, gan osgoi'r straen sy'n gysylltiedig â mynd ar wyliau (Whitley a Wooldridge, 2017). Mae'r broses o fabwysiadu agwedd teulu cyfan a gallu diwallu anghenion iechyd y person sy'n derbyn gofal yn gallu helpu gofalwyr ifanc i deimlo nad oes angen iddynt boeni am effaith cael seibiant o'u dyletswyddau gofal.

Mae 'seibiantgarwch' (respitality) yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth yr Alban sydd wedi bod ar waith ers 2015. Mae'r model yn annog canolfannau gofalwyr i feithrin perthynas â busnesau lleol, megis gwestai, llety gwely a brecwast, bwytai a darparwyr hamdden eraill, er mwyn eu hannog i roi amrywiaeth o anrhegion, gwyliau

byr a phrofiadau am ddim i ofalwyr di-dâl yn yr ardal. Byddwn yn archwilio sut mae model seibiantgarwch Llywodraeth yr Alban o weithio gyda'r sectorau twristiaeth a lletygarwch i gynnig gwyliau byr yn gallu cael ei efelychu yng Nghymru.

Cam Gweithredu

- Datblygu model 'seibiantgarwch' Cymru, gan ddysgu o wersi'r Alban a phrosiect Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, 'Cymunedau Gofalu o Newid' a ariennir drwy Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy y Trydydd Sector.

Mae gofalwyr ifanc yn gwerthfawrogi cyfleoedd i gymdeithasu, yn enwedig mewn lleoliadau sy'n cynnwys cefnogaeth gan ofalwyr ifanc eraill sy'n deall ac yn gallu uniaethu â'u profiadau. Mae ein grant seibiannau byr i awdurdodau lleol yn 2021/22 yn darparu gwasanaethau arloesol hynod bwysig i ofalwyr ifanc fel bod modd iddynt gael seibiant o'u rôl ofalu. Yn ogystal â chynnig seibiant grŵp wyneb yn wyneb gyda'u cyfoedion, mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r grantiau i ddarparu tocynnau sinema a hwyluso diwrnodau allan i ofalwyr ifanc, gan gynnwys costau cludiant. Mae gweithgareddau yn y cartref fel celf a chrefft yn cael eu hariannu drwy'r grant hefyd.

Cam Gweithredu

- Ariannu a darparu opsiynau seibiant byr i ateb y cynnydd yn y galw wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio. Darparu gwasanaethau eistedd gyda rhywun a gofal amgen mwy traddodiadol, gweithio ar draws sectorau a chyda chymunedau lleol i ddatblygu dulliau mwy arloesol.

Mae manteision cymorth emosiynol yn cynnwys meithrin cryfder pobl ifanc i ymdopi â gofynion cyfrifoldebau gofal, ac mae'n cydnabod bod anawsterau emosiynol yn gallu bod yn gysylltiedig â bod yn rhan o deulu sy'n cael ei effeithio gan iechyd meddwl, anabledd neu gamddefnyddio sylweddau.

O dan Flaenoriaeth 3, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o gymorth seicolegol ac archwilio sut mae modelau cymorth newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig yn gallu arwain at welliannau wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Camau Gweithredu

- Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu polisi ehangach ym maes iechyd meddwl.
- Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r cymorth seicolegol lleol sydd ar gael fel y gallant gynnig gwasanaethau i ofalwyr di-dâl i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn ystod asesiad o anghenion gofalwyr.

## Blaenoriaeth 1

Unwaith eto, mae yna orgyffwrdd rhwng darparu cymorth emosiynol priodol i ofalwyr ifanc a chydnabod ac adnabod gofalwyr ifanc, yn enwedig mewn ysgolion lle mae gan staff gysylltiad rheolaidd â phlant a phobl ifanc. Mae llawer o'r gweithgarwch o dan Gynllun Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc, gan gynnwys mwy o arian i helpu disgyblion ysgol i fanteisio ar wasanaethau cwnsela mewn ysgolion neu ddarpariaeth CAMHS.

Er enghraifft, gellir defnyddio cymorth bugeiliol mewn ysgolion i helpu gofalwyr ifanc i dderbyn cymorth ar gyfer llesiant emosiynol, yn ogystal â chyfeirio at wasanaethau cwnsela. Mae rhai ysgolion yng Nghymru yn darparu clybiau amser cinio ar gyfer gofalwyr ifanc yn benodol. Bydd y camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 yn ymwneud â chynlluniau achredu a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr yn helpu i gynorthwyo gofalwyr ifanc ymdopi ag effaith emosiynol eu rôl ofalu.

## Blaenoriaeth 4: cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

**Themâu**

- **Annog awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth i adnabod gofalwyr ifanc**
- **Gweithio gyda chyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol i hyrwyddo gweithleoedd sy'n gyfeillgar i ofalwyr di-dâl**
- **Hyrwyddo gwytnwch ariannol**

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n darparu gofal di-dâl.

### Rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr ifanc

Mae'r holl flaenoriaethau cenedlaethol a'u camau gweithredu arfaethedig yn berthnasol i ofalwyr di-dâl o bob oed a chefndir. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc o dan 18 oed yn yr ysgol neu'n mynychu'r coleg, felly mae angen iddynt sicrhau cydbwysedd rhwng eu dysgu a datblygiad personol a'u cyfrifoldebau gofal. Mae ffigurau Cyfrifiad 2011 yn dangos bod o leiaf un gofalwr ifanc ym mhob dosbarth, ond mae gwaith ymchwil mwy diweddar yn awgrymu bod y ffigur gwirioneddol yn nes at bedwar ym mhob dosbarth (Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, 2018).

Mae'r effaith ar ofalwyr ifanc o geisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau gofal a dysgu wedi'i nodi'n helaeth. Roedd yr ymatebion i'n hymgynghoriad yn cyfeirio at broblemau yn mynychu'r ysgol a gwneud gwaith cartref, teimlo'n ynysig, unigrwydd a straen. Ar rai aelwydydd, mae'n bosibl y bydd gofalwyr ifanc yn wynebu anawsterau oherwydd diffyg lle addas yn y cartref i astudio.

Yn 2019, nododd ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Pumed Senedd fod 27% o ofalwyr ifanc 11-15 oed yn absennol o'r ysgol neu'n wynebu anawsterau addysgol, a bod gofalwyr ifanc yn colli 48 diwrnod o ysgol y flwyddyn ar gyfartaledd.

Yn 2013, dangosodd gwaith ymchwil gan Gymdeithas y Plant fod cyrhaeddiad addysgol gofalwyr ifanc ar lefel TGAU yn is o lawer na disgyblion eraill. Mae un o bob tri gofalwr ifanc ym mlwyddyn 9 mewn perygl o fod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) rhwng 16 a 19 oed, o'i gymharu ag un o bob pedwar o'r rhai nad oes ganddynt gyfrifoldebau gofal.

Mae tystiolaeth fwy diweddar a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe (2021) yn dangos bod gofalwyr ifanc yn parhau i fod yn llai tebygol o fod mewn addysg llawn amser, eu bod yn colli mwy o ddiwrnodau ysgol, yn fwy tebygol o fod â lefelau cyrhaeddiad addysgol is, bod â lefel is o lesiant meddwl a bod mewn mwy o berygl o ymddieithrio oddi wrth ddysgu.

O ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau symud, mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru (2020) wedi nodi bod 45% o'r gofalwyr ifanc a holwyd wedi methu treulio digon o amser yn gwneud eu gwaith ysgol, a bod 58% yn teimlo bod eu haddysg yn dioddef. Gall problemau gyda phresenoldeb neu gyrhaeddiad yn yr ysgol effeithio ar ddyfodol gofalwyr ifanc. Mae'n gallu bod yn anodd i ofalwyr ifanc feddwl am y dyfodol

os ydynt yn canolbwyntio ar bryderon mwy uniongyrchol.

Mae llawer o ofalwyr ifanc yn nodi nad yw eu ffrindiau na'u cyfoedion yn deall ystyr bod yn ofalwr ifanc. Mae gofalwyr ifanc yn fwy tebygol o gael eu bwlio hefyd, a dywedodd chwarter y gofalwyr ifanc eu bod wedi dioddef bwlio yn yr ysgol oherwydd eu rôl ofalu. I lawer o ofalwyr ifanc, roedd diffyg cefnogaeth a dealltwriaeth yn yr ysgol wedi cael effaith andwyol nid yn unig ar eu gallu i gyflawni'n academaidd, ond hefyd ar eu hiechyd a'u llesiant ehangach (Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 2019).

**Effaith gadarnhaol arfaethedig y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni**

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 4 yn pwysleisio pwysigrwydd adnabod gofalwyr ifanc mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Blaenoriaeth 4 hefyd yn cydnabod yr angen am gysylltiad cryf rhwng ysgolion a'u gwasanaethau lleol ar gyfer gofalwyr ifanc er mwyn cefnogi gofalwyr ifanc yn llawn. Mae gan lawer o ysgolion fentrau ar waith i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a darparu cymorth yn ôl yr angen. Er enghraifft, mae rhai ysgolion wedi penodi arweinydd ar gyfer gofalwyr ifanc er mwyn goruchwylio'r cymorth y maent yn ei dderbyn a'u cyfeirio i wasanaethau i ofalwyr ifanc. Mae camau gweithredu wedi'u datblygu o dan y flaenoriaeth hon i sicrhau bod enghreifftiau o ymarfer da fel hyn yn cael eu rhoi ar waith yn fwy cyson. Er enghraifft:

<u>Camau Gweithredu</u>

- Hyrwyddo hyrwyddwyr gofalwyr ifanc ysgol unigol a hyrwyddo arferion gorau, er enghraifft fel y nodwyd gan Adolygiad Thematig Estyn 2019.
- Datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr ysgol ar draws rhanbarthau. Annog hyrwyddwyr i fabwysiadu dull ‘ysgol gyfan’.
- Hyrwyddo newid diwylliannol a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy’n oedolion ymysg gweithwyr addysg proffesiynol a’u hanghenion am gymorth a chefnogaeth, a’u cyfeirio at wasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau gofalwyr a gomisiynir.
- Defnyddio adnoddau presennol i helpu i hyrwyddo adnabod gofalwyr gan gyrff a darparwyr addysg, a nodi anghenion ymhlith gweithwyr proffesiynol am ddeunyddiau gwybodaeth / adnoddau neu hyfforddiant ar-lein newydd.

Mae hwyluso cyfleoedd addysg sy'n hyblyg ac wedi'u haddasu i ymrwymiadau gofalu gofalwyr ifanc yn hanfodol i helpu gofalwyr ifanc i aros mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Oherwydd diffyg amser, mae'n bosibl y bydd gofalwyr ifanc yn teimlo bod y cyfleoedd hyn y tu hwnt i'w cyrraedd.

<u>Camau Gweithredu</u>

- Defnyddio cynlluniau a mecanweithiau cenedlaethol fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i helpu i adnabod gofalwyr ifanc fel dysgwyr agored i niwed ac mewn perygl o fod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).
- Annog sefydliadau i benodi hyrwyddwr gofalwyr, a’u cefnogi yn eu rôl drwy adnoddau a hyfforddiant cyfredol ac arfaethedig

Mae cyfleoedd i ennill cymwysterau ar gyfer sgiliau y gallai gofalwyr ifanc fod wedi'u datblygu trwy eu rôl ofalu yn gallu grymuso pobl ifanc a chynyddu eu mynediad at gyflogaeth yn y dyfodol. Gall gofalu am aelodau o'r teulu baratoi pobl ifanc sydd â sgiliau trosglwyddadwy megis: (Demushi, 2015)

- cyfathrebu a chyfieithu

- meithrin ac empathi
- amldasgio
- rheoli amser
- eiriolaeth

Mae adborth wedi dangos i ni fod llawer o ofalwyr di-dâl am sicrhau bod pobl eraill yn cydnabod y sgiliau y maent wedi'u caffael drwy eu rôl ofalu. Mae'r cwrs electronig Dysgu ar gyfer Byw wedi'i gynllunio i helpu gofalwyr di-dâl i nodi a mynegi'r sgiliau unigryw y maent wedi'u hennill trwy eu profiad fel gofalwyr. Mae'r cwrs achredededig hwn wedi'i gynllunio ar gyfer gofalwyr o bob oed, a bydd y rhai sy'n cwblhau'r cwrs yn ennill "bathodyn digidol" y gellir ei ddefnyddio gyda'u cyflogwr presennol, neu wrth chwilio am swydd newydd.

Camau Gweithredu

- Hyrwyddo cwrs e-ddysgu achredededig Gofalwyr Cymru 'Dysgu ar gyfer Byw' ar gyfer gofalwyr di-dâl i nodi sgiliau trosglwyddadwy a enillwyd drwy ofalu; a darpariaeth ddysgu berthnasol arall.
- Gweithio gyda chyrff cenedlaethol cynrychioliadol yn cynnwys CCAUC, Colegau Cymru a'r Brifysgol Agored a phrifysgolion Cymru i annog gofalwyr o bob oedran i fanteisio ar gyrsiau datblygu sgiliau / cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Nod arall Blaenoriaeth 4 yw gwella gwytnwch ariannol gofalwyr di-dâl, gan gydnabod bod gofalwyr di-dâl o bob oed mewn mwy o berygl o ddioddef tlodi. Er enghraifft, gall grantiau bach ddileu rhwystrau ariannol i ofalwyr ifanc a darparu mynediad at hanfodion bywyd megis gwersi gyrru, deunyddiau adolygu, dillad, neu eitemau'r cartref. Mae'n hollbwysig bod y broses o wneud cais am gymorth ariannol yn un syml oherwydd mae'n bosibl weithiau na fydd gofalwyr ifanc yn fodlon gofyn am gymorth i gwblhau ceisiadau cymhleth.

Camau Gweithredu

- Hyrwyddo a chynorthwyo gofalwyr i gael gafael ar amrywiaeth o fudd-daliadau lles, gwybodaeth am gymorth ariannol a gwasanaethau.
- Hyrwyddo mecanweithiau cymorth ariannol Cymru i fyfyrwyr ac ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth, yn cynnwys benthyciadau myfyrwyr, a chymorth fel bwrsarïau prifysgol i ofalwyr di-dâl.

Hefyd, o dan Flaenoriaeth 2 byddwn yn:

- Sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau manteisio i'r eithaf ar incwm a system budd-daliadau Cymru.

## Siarter i Ofalwyr Di-dâl

Nod yr ymrwymiad yn y strategaeth i greu Siarter i Ofalwyr Di-dâl yw lleihau'r gwahaniaeth rhwng y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gwahanol.

Mae'r Siarter i Ofalwyr Di-dâl yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n darparu gofal di-dâl. Nod y Siarter fydd sicrhau bod gofalwyr di-dâl o bob math, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn derbyn y lefel o gymorth y mae ganddynt hawl iddo gan weithwyr proffesiynol, gwasanaethau a sefydliadau. Mae'r Siarter yn parhau i gael ei datblygu a bydd yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach na'r Cynllun Cyflawni.

Mae'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn berthnasol i ofalwyr di-dâl o bob oed, gan gynnwys plant. Er ein bod yn creu un ddogfen Siarter (a fydd ar gael ar-lein ac mewn fformatau eraill gan gynnwys papur), mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc, yn ogystal ag oedolion, yn gallu deall a defnyddio'r Siarter.

Er mwyn sicrhau bod profiadau gofalwyr ifanc yn cael eu hadlewyrchu yn y Siarter, bydd y broses gyd-gynhyrchu yn cynnwys eu lleisiau, gan weithio gyda sefydliadau sy'n eu cynrychioli yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i gysylltu'n uniongyrchol â gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.

**Effaith y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ar blant a phobl ifanc nad ydynt yn darparu gofal di-dâl**

Er mai bwriad clir y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yw ceisio gwella cymorth i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys y rhai dan 18 oed, mae'n bwysig cydnabod yr effeithiau cadarnhaol posibl ar blant a phobl ifanc nad ydynt yn darparu gofal di-dâl eu hunain.

Mae dechrau anabledd, salwch, caethiwed neu her iechyd meddwl yn ddigwyddiad bywyd mawr sy'n gallu effeithio ar bob aelod o'r aelwyd waeth a ydynt yn gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal ai peidio, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae'r effeithiau yn gallu cynnwys newidiadau dilynol mewn incwm aelwydydd o ganlyniad i wariant uwch ac enillion is, a'r perygl cynyddol o ddioddef tlodi. Gall plant a phobl ifanc wynebu allgau cymdeithasol hefyd gan ddibynnu ar y sefyllfa sydd wedi arwain at yr anghenion gofal. Mae hyn yn gysylltiedig â mentrau a sgyrsiau ehangach sy'n mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag anghenion anabledd, dibyniaeth ac iechyd meddwl. Ac ni ellir tanbrisio effaith emosiynol, straen a phryder byw gyda rhywun ag anghenion gofal.

Nod pob un o'n pedair blaenoriaeth genedlaethol newydd a'r Siarter i Ofalwyr Di-dâl yw cynorthwyo gofalwyr di-dâl o bob oed i gael mynediad at eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, darparu cymorth a chynlluniau ariannol i leddfu caledi ariannol, a sicrhau eu bod yn gallu cynnal eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Gall lleihau'r heriau sy'n wynebu oedolion, brodyr neu chwiorydd neu rieni sy'n ofalwyr yn eu rôl ofalu helpu i leihau lefel y gofal a ddarperir gan blant, a chael effaith gadarnhaol anuniongyrchol o ganlyniad i amgylchedd teuluol sydd â llai o straen.

## Erthyglau CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r Cynllun Cyflawni ategol

Mae gan bob plentyn, gan gynnwys gofalwyr ifanc, hawliau sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Ni ddylid cyfyngu ar yr hawliau hyn dim ond oherwydd bod plentyn yn byw mewn teulu lle mae angen gofal a chymorth ar rywun.

Rydym yn hyderus na fydd y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni yn arwain at gymhwyso'r Confensiwn mewn ffordd wahaniaethol. Sail resymegol y cynigion yn y Strategaeth a'r Cynllun yw'r ffaith eu bod er budd pennaf

plant a phobl ifanc sy'n darparu gofal di-dâl.

Yr hyn sy'n dilyn yw tabl o erthyglau'r CCUHP sy'n cael eu hystyried yn fwyaf perthnasol i'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r Cynllun Cyflawni ategol.

| **Erthygl** | **Cysylltiadau â'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofalwyr Di-dâl** |
|---|---|
| **Erthygl 2: Dim gwahaniaethu**<br><br>Mae'r confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, gallu neu unrhyw statws arall, beth bynnag mae'n ei gredu neu'n ei ddweud, beth bynnag fo cefndir ei deulu. | Mae gofalwyr ifanc mewn mwy o berygl o fod dan anfantais yn addysgol ac yn gymdeithasol oherwydd eu bod yn byw mewn cartref lle mae rhywun yn anabl neu â salwch hirdymor.<br><br>Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n ystyried anghenion a hawliau gofalwyr ifanc, hyd yn oed os nad yw hyn wedi'i nodi'n benodol yn y cam gweithredu. |
| **Erthygl 3: Budd pennaf y plentyn**<br><br>Rhaid mai budd y plentyn yw'r brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a chamau gweithredu sy'n effeithio ar blant. | Mae gofalwyr ifanc yn haeddu cael eu hystyried. Bwriad y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni, a'r polisïau a chyllidebau sydd eu hangen i'w cyflawni, yw cynorthwyo gofalwyr ifanc i gyflawni eu nodau a sicrhau eu hawliau datblygiadol o dan CCUHP. |
| **Erthygl 4: Gweithredu'r Confensiwn (gwireddu hawliau)**<br><br>Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau ei hawliau drwy greu systemau a phasio deddfau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant. | Mae gan wasanaethau cyhoeddus gyfraniad i'w wneud at gynorthwyo gofalwyr ifanc i wireddu eu potensial. Mae camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni yn cynnwys rhannu arferion da ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector i wella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc ledled Cymru. |
| **Erthygl 5: Canllawiau rhieni a galluoeddau datblygol y plentyn**<br><br>Rhaid i lywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr i ddarparu canllawiau a chyfarwyddyd i'w plentyn wrth iddo dyfu, er mwyn sicrhau ei fod yn mwynhau ei hawliau'n llawn. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n cydnabod gallu cynyddol y plentyn i wneud ei ddewisiadau ei hun. | Gall gwasanaethau cyhoeddus wneud cyfraniad at gynorthwyo teuluoedd i feithrin gofalwyr ifanc a'u helpu i amddiffyn gofalwyr ifanc yn y teulu rhag ymgymryd â dyletswyddau amhriodol. Gall hyn gynnwys darparu cymorth i aelodau eraill o'r teulu i leihau'r perygl o gyflawni dyletswyddau gofal amhriodol sy'n niweidio eu datblygiad.<br><br>Bydd camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni yn gwella cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys rhieni sy'n ofalwyr. Bydd lleihau'r heriau sy'n wynebu gofalwyr ifanc yn y teulu yn cael effaith gadarnhaol arnynt.<br><br>Hefyd, mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 3 yn cydnabod bod seibiannau a gwyliau byr yn gallu bod yn rhan hanfodol o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr ifanc i gefnogi bywyd ochr yn ochr â'u rôl ofalu. |
| **Erthygl 12: Parch at farn y plentyn**<br><br>Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n | Dylai gofalwyr ifanc gyfrannu'n llawn at benderfyniadau sy'n ymwneud â'r rhai sy'n derbyn gofal ganddynt, yn enwedig |

effeithio arno, a bod ei farn yn cael ei hystyried a'i chymryd o ddifri. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau tai neu fywyd cartref y plentyn o ddydd i ddydd.

penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant eu hunain (er enghraifft: penderfyniadau am faint o ofal y maent yn ei ddarparu a phwy arall ddylai helpu i gefnogi'r teulu). Os nad yw gofalwr ifanc yn gallu eirioli dros ei hun mewn perthynas â'i ganlyniadau dymunol mewn asesiad o anghenion, mae'n gallu gofyn i aelod o'r teulu e.e. rhiant, neu wasanaeth eiriolaeth proffesiynol i'w gefnogi.

Bwriad camau i wella asesiadau o anghenion gofalwyr, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ifanc ymhlith ysgolion, gwasanaethau statudol a thrwy ryddhau cleifion o'r ysbyty yw helpu i gefnogi a chynnwys gofalwyr ifanc mewn penderfyniadau am y person y maent yn gofalu amdano.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn prosesau ymgysylltu â gofalwyr ifanc i lywio ein polisi a'n hymarfer.

**Erthygl 15: Rhyddid i ymgysylltu (sefydlu neu ymaelodi â grwpiau)**

Mae gan bob plentyn yr hawl i gyfarfod â phlant eraill ac ymaelodi â grwpiau a sefydliadau, ar yr amod nad yw hyn yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid yn ffynhonnell cymorth bwysig i ofalwyr ifanc.

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn cydnabod bod seibiannau a gwyliau byr yn gallu bod yn rhan hanfodol o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr ifanc i gefnogi bywyd ochr yn ochr â'u rôl ofalu. Mae Blaenoriaeth 3 yn benodol yn cydnabod bod sawl dull posibl o roi seibiant i rywun, gan gynnwys darparu amser i ymlacio a mwynhau amser gyda theulu a ffrindiau, dechrau diddordeb neu ddosbarth ymarfer corff, dilyn cwrs addysg neu hyfforddiant neu fynd ar wyliau byr gyda'r person sy'n derbyn gofal ganddo neu ar ei ben ei hun.

**Erthygl 16: Yr hawl i breifatrwydd**

Mae gan bob plentyn yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith ddiogelu bywyd preifat, teuluol a chartref y plentyn, gan gynnwys amddiffyn plant rhag ymosodiadau anghyfreithlon sy'n niweidio eu henw da.

Rydym yn hyderus nad oes unrhyw un o'r ymrwymiadau yn y strategaeth yn effeithio ar hawl plentyn i breifatrwydd.

**Erthygl 17: Mynediad at wybodaeth gan y cyfryngau**

Mae gan bob plentyn yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau, a dylai llywodraethau annog y cyfryngau i ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall. Rhaid i lywodraethau helpu i amddiffyn plant rhag deunyddiau a allai eu niweidio.

I ofalwyr ifanc, mae hyn yn cynnwys eu hawliau, gan gynnwys eu hawl i beidio â darparu gofal nad ydynt yn dymuno ei ddarparu, a gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael iddynt.

Nod Blaenoriaeth 2 yw sicrhau bod gan bob gofalwr di-dâl fynediad at yr wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr amser cywir ac mewn fformat priodol.

Bydd y broses o roi camau gweithredu ar waith i wella gwybodaeth, cyngor a chymorth (ac asesiadau o anghenion gofalwyr) yn ystyried anghenion pobl ifanc er mwyn sicrhau bod cymorth yn hygyrch ac wedi'i deilwra iddynt. Rhoddir ystyriaeth bellach i gasglu gwybodaeth yn benodol am brofiadau gofalwyr ifanc er mwyn hwyluso hyn.

**Erthygl 24: Iechyd a gwasanaethau iechyd**

Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl.

Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg yn ymwneud ag iechyd a llesiant er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cadw'n iach. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Nod y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yw cynorthwyo gofalwyr di-dâl o bob oed i wella eu canlyniadau iechyd a llesiant trwy ymrwymiadau amrywiol, yn enwedig blaenoriaethau 3 a 4.

Nod yr ymrwymiad yn y Strategaeth i greu Siarter i Ofalwyr Di-dâl yw lleihau'r gwahaniaeth rhwng y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gwahanol.

**Erthygl 26: Nawdd cymdeithasol**

Mae gan bob plentyn yr hawl i elwa o nawdd cymdeithasol. Rhaid i lywodraethau ddarparu nawdd cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ariannol a budd-daliadau eraill, i deuluoedd y mae angen cymorth arnynt.

**Erthygl 27: Safon byw ddigonol**

Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol a chymdeithasol a chynnal ei ddatblygiad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn.

Gall gofalwyr ifanc wynebu tlodi ac ynysu neu allgau cymdeithasol oherwydd amgylchiadau ariannol eu teulu.

Er enghraifft: Mae aelwydydd sy'n cynnwys oedolyn anabl yn wynebu cyfraddau tlodi uwch. Mae incwm blynyddol cyfartalog teuluoedd â gofalwr ifanc £5,000 yn llai na theuluoedd nad oes ganddynt ofalwr ifanc.

Mae Blaenoriaeth 4 yn cynnwys camau i wella gwytnwch ariannol gofalwyr di-dâl a'u teuluoedd.

**Erthygl 28: Yr hawl i addysg**

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim, a rhaid sicrhau bod mathau gwahanol o addysg uwchradd ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 29: Nodau addysg

Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid i addysg hyrwyddo parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.

Mae cyrhaeddiad addysgol gofalwyr ifanc yn sylweddol is ar lefel TGAU, ac mae un o bob tri gofalwr ifanc ym mlwyddyn 9 mewn perygl o fod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) rhwng 16 a 19 oed, o'i gymharu ag un o bob pedwar o'r rhai nad oes ganddynt gyfrifoldebau gofal. Gall hyn arwain at ddiweithdra, llai o enillion, iechyd gwael ac iselder.

Mae gwella mynediad at addysg a hyfforddiant i ofalwyr ifanc yn rhan annatod o Flaenoriaeth 4. Mae'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon hefyd yn ymateb i'r angen am gysylltiad cryf rhwng ysgolion a'u gwasanaethau lleol i ofalwyr ifanc er mwyn cefnogi gofalwyr ifanc yn llawn.

**Erthygl 31: hamdden, chwarae a diwylliant**

Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.

Gall cyfrifoldebau gofalwyr ifanc eu hatal rhag cymdeithasu â phlant neu bobl ifanc eraill.

Mae'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 3 yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sydd â dyletswyddau gofalu.
Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod

seibiannau a gwyliau byr yn gallu bod yn rhan hanfodol o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr ifanc i ymdopi â'u rôl ofalu.

## Effaith y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ar grwpiau gwahanol o blant

Cwblhawyd dadansoddiad o effaith gofalu ar blant a phobl ifanc fel rhan o'r gyfres o asesiadau effaith sy'n ffurfio'r Asesiad Effaith Integredig. Mae'r canfyddiadau allweddol wedi'u nodi isod.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n darparu gofal di-dâl. Serch hynny, bydd ystyried anghenion grwpiau gwahanol o ofalwyr ifanc yn elfen hanfodol o'r broses weithredu er mwyn sicrhau bod y manteision arfaethedig yn cael eu gwireddu ar gyfer pob gofalwr ifanc.

<u>Gofalwyr ifanc o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig</u>

Amlinellodd Carers UK (2011) waith ymchwil yn dangos bod gofalwyr ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr yn ymgymryd â rolau gofalu sydd y tu hwnt i'w hoedran. Mae llawer yn ymgymryd â gwaith dehongli neu gyfieithu wrth ymweld â'r meddyg neu'r ysbyty lle maent yn clywed gwybodaeth sensitif fel salwch hirdymor neu salwch sy'n terfynu bywyd, er enghraifft, malaria, HIV neu AIDS, canser a seicosis. Ailadroddwyd y profiad hwn yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad.

Yng Nghyfarfod y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl ym mis Ionawr 2021, trafododd yr aelodau anghenion gofalwyr ifanc sy'n dehongli ar ran y person y maent yn gofalu amdano, yn enwedig wrth ddefnyddio iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg. Cytunwyd na ddylai unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol ddisgwyl i ofalwr ifanc "ddehongli". Dylai'r sector gofal sylfaenol ddefnyddio dehonglwyr proffesiynol a mathau priodol eraill o gymorth lle mae angen cymorth ar y person sy'n derbyn gofal neu'r gofalwr i gyfathrebu â'r meddyg teulu / staff y feddygfa.

Daeth Carers UK i'r casgliad bod y cyfrifoldebau ychwanegol hyn wedi arwain at ofalwyr ifanc o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn tangyflawni ym maes addysg ac yn dioddef iechyd meddwl a chorfforol gwael.

Hefyd, mae Carers UK wedi cyfeirio at waith ymchwil sy'n dangos bod gofalwyr ifanc yn anfodlon camu ymlaen oherwydd ymyriadau diangen, yn enwedig yr ofn y byddant yn cael eu rhoi mewn gofal neu y bydd y teulu'n cael ei wahanu.

<u>Gofalwyr ifanc o aelwydydd sydd o dan anfantais economaidd</u>

Mae Sefydliad Joseph Rowntree (2015) wedi nodi bod gofalwyr ifanc yn gallu wynebu tlodi ac ynysu neu allgáu cymdeithasol oherwydd amgylchiadau ariannol eu teulu. Yn ôl Cymdeithas y Plant (2013), mae incwm blynyddol cyfartalog teuluoedd â gofalwr ifanc £5,000 yn llai nag incwm teuluoedd nad oes ganddynt ofalwr ifanc.

Mae newidiadau yn incwm yr aelwyd ac mewn patrymau gwaith (gan gynnwys un rhiant neu'r ddau riant yn mynd yn ddi-waith) yn cynyddu'r risg o dlodi ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae aelwydydd sy'n cynnwys oedolyn anabl yn wynebu cyfraddau tlodi uwch, ac mae dros draean o blant sy'n byw gydag oedolyn anabl yn byw ar aelwyd incwm isel (Parckar, 2008). Mae mwy na hanner y teuluoedd sydd â phlentyn anabl yn byw mewn tlodi neu ar ymylon tlodi (Sefydliad Joseph Roundtree, 2000),

sy'n debygol o effeithio ar brofiad gofalwyr ifanc sy'n frodyr a chwiorydd.

Os yw sefyllfa teulu yn dirywio yn sydyn neu os ydynt yn cael damwain, mae'r gostyngiad mewn incwm gwario oherwydd newidiadau mewn cyflogaeth neu wariant uwch yn gallu bod yn sylweddol (Comisiwn Cymunedau Gwledig, 2009).

Ym mis Mehefin 2020, cwblhaodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru arolwg o 366 o ofalwyr rhwng 12 a 25 oed i ddeall eu profiadau o fyw a gofalu yn ystod y pandemig. Nodwyd bod 9% o ofalwyr ifanc (hyd at 18 oed) a holwyd yn ei chael hi'n anodd cyrchu eitemau sylfaenol fel bwyd a meddyginiaeth.

<u>Gofalwyr ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig</u>

Prin yw'r gwaith ymchwil sy'n dadansoddi'n benodol profiadau gofalwyr ifanc sy'n byw mewn lleoliadau gwledig yng Nghymru. Serch hynny, mae'r ymchwil sydd ar gael yn awgrymu bod gofalwyr ifanc mewn ardaloedd gwledig yn cyflawni tasgau gofalu tebyg ond y gallan nhw wynebu heriau ychwanegol megis cyfleusterau a gwasanaethau mwy gwasgaredig.

Roedd gwaith ymchwil gan y Comisiwn ar gyfer Cymunedau Gwledig yn Lloegr yn 2009 wedi nodi nifer o ganfyddiadau sy'n debygol o fod yn berthnasol. Er enghraifft,

- I lawer o ofalwyr ifanc, roedd byw mewn ardaloedd gwledig yn lleihau mynediad at gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus a phroblemau symudedd eu rhieni.
- Mae byw mewn ardal wledig yn creu rhwystrau ychwanegol i'r rhai sydd wedi mynd yn anabl a'u teuluoedd, yn ogystal ag effeithio ar sut mae plant yn wynebu dechrau anabledd. Mae lefel yr allgau cymdeithasol yn gwaethygu oherwydd natur anghysbell yr ardal, diffyg trafnidiaeth, y ffaith fod gwasanaethau yn bell i ffwrdd, ac agweddau gwahaniaethol posibl mewn cymunedau lleol.
- Arweiniodd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal cymunedol mewn ardaloedd gwledig â phoblogaethau tenau at amserlennu anhyblyg ar gyfer gofal cartref nad oedd yn cyd-fynd ag anghenion y teulu cyfan bob amser.
- Yn gyffredinol, mae gan ardaloedd gwledig lai o fannau cyswllt ar gyfer cyngor a gwybodaeth, ac yn aml, nid oedd y teuluoedd a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Bu'n rhaid i rai pobl ifanc chwilio am wybodaeth am wasanaethau eu hunain. Mae cael gafael ar wybodaeth trwy ffynonellau amgen fel y rhyngrwyd yn anodd iawn mewn ardaloedd gwledig, nid yn unig oherwydd diffyg darpariaeth band eang, ond oherwydd bod y gost yn gallu bod yn rhy ddrud hefyd. Hefyd, mae mynediad at y rhyngrwyd yn amrywio'n sylweddol rhwng rhanbarthau.
- Efallai y bydd rhai teuluoedd yn anfodlon camu ymlaen gan eu bod yn poeni am gael eu stigmateiddio. Hefyd, gallan nhw deimlo y bydd gwneud hynny'n peryglu eu preifatrwydd, sy'n fwy tebygol o fod yn wir mewn cymunedau bach.
- Mae llai o ddefnyddwyr gwasanaethau yn golygu nad yw darparwyr arbenigol yn credu bod gwasanaeth yn hyfyw mewn ardaloedd gwledig, sy'n golygu bod gwasanaethau lleol ar agor am lai o oriau, neu eu bod wedi'u lleoli ymhellach i ffwrdd. Cyfeiriwyd at nifer o broblemau yn ymwneud â gwasanaethau meddygon teulu ac ysbytai, gan gynnwys methu cael apwyntiad neu ymweliad yn y cartref, oriau agor anhyblyg ac amseroedd ymateb hir. Roedd hyn yn golygu bod yn

rhaid i'r bobl ifanc drefnu cludiant neu ofalu am eu rhieni wrth aros am gymorth proffesiynol. Oherwydd diffyg gwasanaethau trafnidiaeth, bu'n rhaid i unigolion ddibynnu ar ffrindiau a theulu i fynd â nhw i apwyntiadau. Weithiau bu'n rhaid i'r person ifanc fynd â nhw oherwydd nad oedd dewis arall ar gael.

Plant â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)

Gall ACEs gynnwys trais, camdriniaeth, a magwraeth mewn teulu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau. Gall straen gwenwynig gan ACEs newid datblygiad yr ymennydd ac effeithio ar sut mae'r corff yn ymateb i straen. Mae ACEs yn gysylltiedig â phroblemau iechyd cronig, salwch meddwl, a chamddefnyddio sylweddau wrth droi'n oedolyn.

Yng Nghymru, mae'r term ACEs wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers dros 20 mlynedd i ddisgrifio cyfres o ddeg o ddigwyddiadau ac amgylchiadau penodol. Mae astudiaethau o bob rhan o'r byd wedi dangos cysylltiad cryf yn gyson rhwng ACEs a chanlyniadau gwaeth yn ystod bywyd unigolyn. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau yng Nghymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a ddylanwadodd ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i gamau gweithredu yn ymwneud ag ACEs yn ystod pumed tymor y Cynulliad. Mae'r adolygiad wedi amlygu corff cadarn o dystiolaeth gyson sy'n sylfaen i ACEs, a chefnogaeth gadarn i benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i gamau gweithredu yn ymwneud ag ACEs. Mae'r adolygiad wedi dangos bod cydnabyddiaeth o ACEs wedi dod yn rhan annatod o bolisi Llywodraeth Cymru, a bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu ACEs wedi dylanwadu ar ddatblygu polisi Llywodraeth y DU mewn rhai meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.

https://llyw.cymru/adolygiad-or-polisi-ynghylch-profiadau-niweidiol-yn-ystod-plentyndod-adroddiad-html

Fodd bynnag, nid yw'r maes hwn yn cynnwys llawer o waith ymchwil yn ymwneud â gofalwyr ifanc yn benodol. Rydym yn gwybod bod rhai pobl ifanc yn cefnogi rhieni neu aelodau o'r teulu sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a chyflyrau iechyd meddwl. Mae gan tua 40% o ofalwyr ledled y DU lefelau uchel o bryder neu iselder, ac mae nifer y gofalwyr ifanc sy'n hunan-niweidio yn uwch na'r cyfartaledd. (Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, 2014).

Cyfeiriodd y Comisiwn ar gyfer Cymunedau Gwledig yn Lloegr (2009) at effaith gofalu ar blant a allai fod 'mewn angen' neu 'mewn perygl' o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin.

- Dim ond ychydig o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth a oedd yn derbyn cymorth trwy wasanaethau i blant, ac roedd gan rieni'r rhan fwyaf ohonynt broblemau alcohol neu iechyd meddwl. Roedd y bobl ifanc hyn yn fwy tebygol o fod wedi treulio amser yn byw ar wahân i'w rhieni neu wedi cael profiad o fyw gyda thrais yn y cartref. Yn hytrach na chael eu disgrifio fel 'gofalwyr ifanc', mae plant sy'n derbyn cymorth yn y modd hwn yn fwy tebygol o gael eu disgrifio fel plant 'mewn angen' neu 'mewn perygl' o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin.
- Mae hyn yn ategu gwaith ymchwil arall. Yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Ofalwyr Ifanc, roedd ychydig dros un rhan o ddeg o'r 6,000 o ofalwyr ifanc a arolygwyd ganddynt wedi cael eu hasesu o dan Ddeddf Plant (1989). Roedd gan ychydig yn llai na chwarter y rhai a aseswyd rieni neu berthnasau eraill â phroblemau cyffuriau neu alcohol, felly roedd awduron yr arolwg yn rhagdybio y gallai pryderon

yn ymwneud ag amddiffyn plant fod wedi arwain at gynnwys gwasanaethau plant, yn hytrach na phryderon am y posibilrwydd eu bod yn agored i niwed fel gofalwyr.

- Yn ôl Ofsted (2009), er bod cynghorau'n asesu pobl ifanc pan oedd pryderon clir yn ymwneud ag amddiffyn plant, nid oeddent yn ystyried bob amser bod 'gofalwyr ifanc' eraill yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesiad gofal cymdeithasol.

Gofalwyr ifanc mewn addysg neu mewn perygl o fod yn NEET (Nid mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant)

Yn ôl gwaith ymchwil gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn 2018, mae ffactorau risg ar gyfer bod yn NEET yn cynnwys bod yn ofalwr ifanc. Mae gofalwyr ifanc yn fwy tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol o fod yn NEET rhwng 16 a 19 oed.

Roedd gofalwyr ifanc yn fwy tebygol o gael eu bwlio yn yr ysgol, bod yn absennol o'r ysgol ac wedi syrthio i gysgu yn yr ysgol yn ystod yr wythnos flaenorol.

O safbwynt cyrhaeddiad, mae gwaith ymchwil wedi canfod bod cyrhaeddiad gofalwyr ifanc yn is ar gyfartaledd ar lefel grŵp na chyrhaeddiad eu cyfoedion nad oeddent yn darparu gofal di-dâl (Webb, 2016).

Yn ystod y pandemig yn 2020, nododd 45% o ofalwyr ifanc a ymatebodd i arolwg Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru nad oeddent yn gallu treulio digon o amser yn gwneud eu gwaith ysgol, ac roedd 58% yn teimlo bod eu haddysg yn dioddef. Roedd 42% o ofalwyr ifanc eisiau mwy o gymorth gyda'u haddysg.

Fodd bynnag, i rai gofalwyr ifanc, roedd astudio yn gyfle pwysig i ganolbwyntio ar rywbeth heblaw gofalu. Nododd bron i 1 o bob 5 fod astudio wedi eu helpu i ymdopi. Nododd pobl ifanc fod y cyfyngiadau symud wedi rhoi mwy o amser iddynt ddysgu sgiliau gyda brodyr a chwiorydd neu'r rhai sy’n derbyn gofal ganddynt. Roedd 44% o ofalwyr ifanc wedi dysgu sgil newydd fel coginio yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, nododd 1 o bob 10 gofalwr ifanc fod cymorth gan yr ysgol neu athro unigol wedi eu helpu i ymdopi â bywyd ers y Coronafeirws.

Gofalwyr benywaidd/gwrywaidd ifanc

Mae menywod a dynion ifanc yn cyflawni dyletswyddau gofal. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi canfod bod merched yn cyflawni mwy o dasgau gofalu - yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn. Canfu arolwg o ofalwyr ifanc sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth yn y DU (Dearden a Becker, 2004) fod 85% o ofalwyr ifanc benywaidd yn cyflawni tasgau domestig, o'i gymharu â 69% o fechgyn. Yn ogystal, nodwyd bod bron i ddwywaith yn fwy o ofalwyr ifanc benywaidd yn y sampl yn darparu gofal personol o'i gymharu â gofalwyr ifanc gwrywaidd. Nododd llawer o'r menywod ifanc fod ganddynt fwy o gyfrifoldebau na'u brodyr.

Yn ôl gwaith ymchwil mwy diweddar a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2021, mae dynion a menywod rhwng 16 a 22 oed yr un mor debygol o fod yn ofalwyr ifanc. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad yn awgrymu bod llesiant gofalwyr benywaidd ifanc yn fwy tebygol o fod yn waeth na'u cymheiriaid gwrywaidd.

Gofalwyr ifanc anabl

Mae gwaith ymchwil wedi canfod bod gofalwyr ifanc yn Lloegr 1.5 gwaith yn fwy tebygol o fod ag angen addysgol arbennig neu anabledd eu hunain, a bod dros 2000 wedi nodi bod ganddynt broblemau iechyd 'gwael' neu 'wael iawn' (Hounsell, 2013).

Plant sy'n siaradwyr Cymraeg

Mae hawliau iaith plant yn cael eu cryfhau gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n ategu gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru. Mae'r Confensiwn yn diogelu hawliau plant i ddefnyddio eu hiaith eu hunain.

Gan fod llawer o blant sy'n siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu'n treulio llawer o'u hamser yn defnyddio'r Gymraeg, er enghraifft os ydynt yn mynychu ysgol Gymraeg (yn enwedig plant ifanc oed cynradd), mae'r fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn nodi bod plant a phobl ifanc yn grŵp sydd â mwy o angen am wasanaethau Cymraeg. Os yw plant neu bobl ifanc yn dymuno bod gwasanaethau gofalwyr di-dâl yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, neu os oes angen eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen gwneud hynny.

Fel sy'n wir am oedolion, mae angen rhoi'r "cynnig gweithredol" i ofalwyr ifanc a phobl ifanc wrth gyrchu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan nodi eu dewis iaith a darparu gwasanaethau yn eu dewis iaith.  Ni ddylent orfod gofyn am wasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn rhan annatod o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, ac yn un o'r gofynion ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru y mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol iddynt.

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Crynodeb

Mae Asesiad Llawn a manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Cyflwynwyd yr asesiad hwn i'w ystyried gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ochr yn ochr â'r Strategaeth - MA/JM/1259/21.

Hefyd, cyhoeddwyd crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth ar wefan Llywodraeth Cymru: Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl: asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb | GOV. CYMRU

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth yn darparu dadansoddiad manwl o ymchwil a thystiolaeth yn ymwneud â gofalwyr di-dâl a allai fod â phrofiad o un nodwedd warchodedig neu fwy, ac effaith bosibl ymrwymiadau'r Strategaeth.

Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Cyflawni ategol y Strategaeth yn ceisio dyblygu'r gwaith hwn. Yn hytrach, rydym wedi ystyried meysydd lle mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi rhwystrau posibl i gyflawni ei fanteision arfaethedig a sut mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni yn bwriadu lliniaru neu ystyried y rhwystrau hyn.

## Sut mae'r polisi yn dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad sy'n cael eu gwahardd

## gan y Ddeddf?

Nid yw'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni yn wahaniaethol nac yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae'n annhebygol y bydd y Cynllun Cyflawni yn cael effaith wahaniaethol. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses o roi'r cynllun ar waith ac yn parhau i fod yn effro i dystiolaeth newydd sy'n awgrymu bod gwahaniaethu neu ymddygiad sydd wedi'i wahardd yn digwydd, neu y gallai fod yn digwydd, gan gymryd camau priodol i atal hyn rhag digwydd.

## Sut mae'r polisi yn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu?

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth yn disgrifio sut y bydd yn helpu i ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd hon. Nodwyd bod angen ystyried nifer o feysydd ymhellach o fewn y Cynllun Cyflawni. Mae’r rhain yn cynnwys:

**Gwella'r broses o adnabod gofalwyr di-dâl sy'n bobl hŷn, yn Bobl Dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, a/neu'n wrywaidd.**

Mae'r dadansoddiad o dystiolaeth wedi dangos bod gofalwyr sy'n hŷn, yn wrywaidd neu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o uniaethu â'r term 'gofalwr’. Gall hyn olygu nad yw gwybodaeth neu gymorth a fwriedir ar gyfer gofalwyr di-dâl yn ymddangos yn berthnasol i aelodau o deuluoedd a ffrindiau sy'n darparu cymorth.

Mae'r ymrwymiadau o dan Flaenoriaeth 1 yn ceisio mynd i'r afael â hyn trwy godi ymwybyddiaeth ymysg gofalwyr di-dâl o sut mae hunan adnabod yn gallu arwain at gymorth ariannol, emosiynol ac ymarferol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfraniadau pwysig gofalwyr di-dâl.

Mae'r Cynllun Cyflawni wedi nodi'r angen i sicrhau bod negeseuon perthnasol yn cyrraedd ac yn cefnogi gofalwyr o gefndiroedd amrywiol. Cyflawnir hyn trwy weithio gyda gofalwyr a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli er mwyn sicrhau bod negeseuon yn hygyrch ac yn berthnasol. Mae'r mannau lle caiff y negeseuon hyn eu dosbarthu cyn bwysiced â'r hyn y maent yn ei gyfleu o safbwynt cyrraedd y rhai sy'n llai tebygol o nodi eu bod yn ofalwr di-dâl. Byddwn yn ystyried y mannau lle caiff negeseuon eu gosod er mwyn sicrhau eu bod ar gael mewn lleoliadau sy'n hygyrch i ystod amrywiol o bobl. Hefyd, rydym yn ymwybodol o'r angen i wella ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n darparu gofal a chymorth hyd yn oed os nad ydynt yn uniaethu â'r term 'gofalwr di-dâl’. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a gyda gofalwyr eu hunain i gyd-gynhyrchu egwyddorion iaith sy'n cael eu cydnabod gan gynulleidfa ehangach ac yn adlewyrchu eu profiadau personol o ddarparu gofal.

Camau Gweithredu

- Gweithio gyda gofalwyr di-dâl sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau byw, a sefydliadau cynrychioliadol i sicrhau bod negeseuon yn hygyrch i ystod eang o bobl. Er enghraifft yn Gymraeg, mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, yn Iaith Arwyddion Prydain, fel copi sain neu braille, hawdd ei ddarllen, ac mewn fformatau sy’n hygyrch i blant a phobl ifanc

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i feddwl yn greadigol am sut y gallwn ni hyrwyddo negeseuon mewn llefydd lle bydd ystod eang o ofalwyr di-dâl yn gallu cael gafael arnynt. Er enghraifft, amgylcheddau dysgu, clybiau ieuenctid/cymdeithasol, siopau lleol a busnesau preifat, canolfannau cymunedol ac ati.

- Cydweithio i bennu cyfres o egwyddorion iaith i'w defnyddio ar gyfer pob agwedd ar ofal di-dâl, cymorth a chodi ymwybyddiaeth. Fel rhan o'r gweithredu hwn byddwn yn:

  - Sicrhau bod yr egwyddorion yn crisialu'r angen sylfaenol i lawer o bobl o allu cael gafael ar wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

  - Sicrhau bod yr egwyddorion yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod cyfathrebu'n hawdd a hwylus i ofalwyr di-dâl gydag amrywiaeth eang o brofiadau byw, gofynion iaith ac anghenion cyfathrebu hygyrch.

  - Osgoi iaith sy'n stigmateiddio a blaenoriaethu'r berthynas ofalu rhwng y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal ganddo lle bo'n bosibl (e.e. aelod o'r teulu, ffrind, cymydog).

## Gwella iechyd a llesiant gofalwyr hŷn a gofalwyr anabl

Mae'r dadansoddiad o dystiolaeth wedi dangos effaith andwyol dyletswyddau gofal ar iechyd a llesiant rhai gofalwyr, a'r ffaith bod gofalwyr hŷn mewn mwy o berygl na gofalwyr iau. Mae gofalwyr anabl yn wynebu heriau penodol i'w hiechyd a'u llesiant sy'n cael eu gwaethygu gan eu rôl ofalu yn aml.

Nod y Strategaeth yw gwella canlyniadau iechyd a llesiant ar gyfer gofalwyr di-dâl o bob math trwy ymrwymiadau amrywiol, o dan Flaenoriaeth 3 yn benodol, gan gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu. Mae hyn yn cydnabod bod opsiynau seibiant a gwyliau byr hyblyg yn gallu bod yn elfen hanfodol o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr ifanc i reoli eu rôl ofalu, gan leihau cyfrifoldebau gofal dros dro hefyd. Mae ymrwymiadau o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys deall sut y gellir ailddiffinio opsiynau seibiant i ddiwallu anghenion yr unigolyn ac archwilio dulliau arloesol o ddarparu opsiynau seibiant. Mae'n debygol y bydd gofalwyr hŷn ac anabl yn elwa ar yr ymrwymiadau yn y Strategaeth hefyd, ac mae nifer o gamau gweithredu wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni a fydd yn helpu i gefnogi llesiant gofalwyr di-dâl hŷn ac anabl.

Mae '**Pa wahaniaeth y mae seibiant yn ei wneud**', a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac academyddion ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor, yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer seibiannau byr yng Nghymru. Bydd y ddogfen yn hanfodol wrth lunio ein camau nesaf tuag at sicrhau bod pob gofalwr yn gallu manteisio ar seibiant priodol. Mae'n cynnwys 12 egwyddor allweddol, wedi'u cyd-gynhyrchu â gofalwyr, sy'n sylfaen i ddull gweithredu yn y dyfodol i ddatblygu opsiynau seibiant byr yng Nghymru. Un o'r egwyddorion hyn yw darparu opsiynau seibiant personol, hyblyg ac ymatebol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n cyflawni dyletswyddau gofal. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod opsiynau seibiant yn cydnabod ffactorau pwysig sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth a chynhwysiant, er enghraifft, oedran, anabledd, iaith a diwylliant.

Hefyd, mae'r Cynllun Cyflawni yn cydnabod sut mae cynlluniau presennol yn cefnogi iechyd a llesiant gofalwyr di-dâl yng Nghymru trwy gynnig cyfnod byr o orffwys o'u rôl ofalu, yn ogystal â gweithgareddau ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, yng Ngwynedd, defnyddiwyd cydweithio rhwng Oedolion Hŷn a

Gwasanaethau Anableddau Dysgu i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer unigolion, gan roi seibiant i ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys mynediad at weithgareddau a dosbarthiadau yn ystod sesiwn gofal dydd unigolion.

Camau Gweithredu

- Adolygu argymhellion a 12 egwyddor adroddiad *Pa wahaniaeth y mae seibiant yn ei wneud: gweledigaeth ar gyfer dyfodol seibiannau byr i ofalwyr di-dâl yng Nghymru* a chydweithio i gytuno ar lwybr gweithredu.
- NEWCIS i hyrwyddo eu model llwyddiannus o gronfa seibiannau byr i leoliadau ledled Cymru.
- Ariannu a darparu opsiynau seibiant byr i ateb y cynnydd yn y galw wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio. Darparu gwasanaethau eistedd gyda rhywun a gofal amgen mwy traddodiadol, gweithio ar draws sectorau a chyda chymunedau lleol i ddatblygu dulliau mwy arloesol.
- Ariannu a darparu gweithgareddau sy'n cynnig seibiant byr o ddyletswyddau gofal ac yn cefnogi llesiant. Mae enghreifftiau cyfredol yn cynnwys sesiynau 'Amser i Fi' Gofalwyr Cymru a Hyb Llesiant ar-lein Gofalwyr Cymru.

**Gwella hygyrchedd, ansawdd a phriodoldeb gwasanaethau sy'n cynorthwyo gofalwyr di-dâl gyda'u rôl ofalu, gan gynnwys gofalwyr Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, gofalwyr sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr Gwyddelig, gofalwyr â chrefyddau neu gredoau gwahanol, gofalwyr hŷn a gofalwyr LHDT.**

Nododd y dadansoddiad o dystiolaeth nifer o rwystrau a gofnodwyd gan ofalwyr di-dâl sydd ag un o'r nodweddion gwarchodedig hyn, neu gyfuniad ohonynt. Nid oedd rhai rhwystrau yn unigryw i'r gofalwyr di-dâl hyn, ond roedd eu heffaith arnynt yn tueddu i fod yn gryfach neu'n wahanol, gan ddatgelu anghydraddoldeb o safbwynt darparu gwasanaethau a chanlyniadau.

Mae'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn berthnasol i ofalwyr di-dâl o bob math. Nod yr ymrwymiad yn y Strategaeth i greu Siarter i Ofalwyr Di-dâl yw sicrhau bod gofalwyr di-dâl o bob math yn derbyn y lefel o gymorth y mae ganddynt hawl iddo gan weithwyr proffesiynol, gwasanaethau a sefydliadau.  Mae'r Siarter yn parhau i gael ei datblygu a bydd yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach na'r Cynllun Cyflawni. Er ein bod yn creu un ddogfen Siarter, mae'n bwysig bod y Siarter yn hygyrch ac yn cael ei defnyddio gan ystod amrywiol o bobl.  Er mwyn sicrhau bod profiadau gofalwyr sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu hadlewyrchu yn y Siarter, bydd y broses gyd-gynhyrchu yn ceisio cynnwys lleisiau o'r cymunedau hyn a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

O dan Flaenoriaeth 1, yn ogystal â helpu gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr i adnabod gofalwyr di-dâl, bydd camau gweithredu sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth i hysbysu teuluoedd am y cymorth sydd ar gael iddynt. Bydd yn bwysig sicrhau bod hyfforddiant yn darparu cyfle i ddysgu sut i adnabod ac ymateb i anghenion gofalwyr di-dâl sy'n perthyn i grwpiau amrywiol fel bod gwasanaethau mewn sefyllfa dda i gynnig y cymorth gorau posibl.

Camau Gweithredu

- Adolygu'r cyfoeth o opsiynau hyfforddiant a gynigir ledled Cymru ar hyn o bryd, nodi bylchau ac archwilio opsiynau i ddatblygu a rhannu enghreifftiau o arferion gorau i gefnogi gweithwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol. Fel rhan o'r adolygiad uchod, archwilio cynnwys modiwlau ar anghenion y Gymraeg, a phwysigrwydd nodi a diwallu anghenion grwpiau ymylol a rhai na chlywir ganddynt yn aml, a gofalwyr ifanc.

- Annog sefydliadau i benodi hyrwyddwr gofalwyr, a’u cefnogi yn eu rôl drwy adnoddau a hyfforddiant cyfredol ac arfaethedig.

Gall eiriolaeth a grymuso gynnwys cyd-gynhyrchu a chynnwys gofalwyr di-dâl o bob cefndir wrth lunio gwasanaethau a pholisi. Mae galluogi gofalwyr di-dâl i helpu i gynllunio gwasanaethau yn gallu cynyddu ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu datblygu mewn ffordd sy'n ystyried anghenion gofalwyr di-dâl. Mae Blaenoriaeth 1 yn cynnwys yr ymrwymiad i fuddsoddi mewn mecanweithiau sy'n helpu gofalwyr di-dâl i leisio eu barn ar lefel genedlaethol, leol a rhanbarthol. Byddwn yn gwneud hyn trwy adolygu aelodaeth o'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr ar lefel Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli gofalwyr o gefndiroedd amrywiol. Mae'r grŵp ymgysylltu yn ategu'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl ac mae'n gweithredu fel mecanwaith i sicrhau bod llais a phrofiad gofalwyr yn cael eu clywed yno. Hefyd, bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i rannu enghreifftiau o ymarfer da yng ngwaith eu paneli ymgysylltu â gofalwyr a grwpiau llywio rhanbarthol a lleol er mwyn sicrhau bod cynnwys llais a phrofiad gofalwyr yn rhan annatod o ddatblygu a darparu gwasanaethau.

Camau Gweithredu

- Adolygu aelodaeth y Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr i sicrhau ei fod yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o brofiadau gofalwyr.
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau mewn perthynas â phaneli ymgysylltu â gofalwyr rhanbarthol neu grwpiau llywio sy’n hwyluso cynnwys llais a phrofiad gofalwyr wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.
- Adolygu’r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiad sbotolau y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mehefin 2021 ac archwilio sut y gellir gweithredu’r awgrymiadau a wnaed i gefnogi cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl.
- Parhau i ariannu a darparu hyfforddiant cynrychioli gofalwyr a hyfforddiant hunaneiriolaeth gofalwyr drwy’r Grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth yn disgrifio sut y bydd yn cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu. Nodwyd bod angen ystyried nifer o feysydd eraill yn y Cynllun Cyflawni. Mae’r rhain yn cynnwys:

**Lleihau'r rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr hŷn wrth ddefnyddio gwasanaethau cymorth statudol, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl.**

Nododd ein dadansoddiad o dystiolaeth nifer o resymau pam y mae rhai gofalwyr hŷn yn amharod i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, ac felly'n llai tebygol o dderbyn cymorth i gyflawni eu rôl ofalu.

Mae ymrwymiadau yn y Strategaeth yn ceisio annog gofalwyr di-dâl i chwilio am gymorth ar yr adeg orau ar gyfer eu hamgylchiadau, sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael, a sicrhau bod anghenion cymwys gofalwyr di-dâl yn cael eu diwallu. Mae llawer o'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 yn ymwneud ag adnabod a chydnabod gofalwyr di-dâl a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr, o dan Flaenoriaeth 3 yn ymwneud â chynorthwyo gofalwyr di-dâl i gael seibiant byr o'u rôl ofalu, a'r Siarter arfaethedig ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, yn ceisio lleihau'r rhwystrau i gael mynediad at

wasanaethau statudol ar gyfer gofalwyr o bob math, gan gynnwys gofalwyr hŷn. Serch hynny, er mwyn rhoi'r Cynllun ar waith, bydd angen rhoi ystyriaeth ymwybodol i bryderon a gofidiau penodol pobl hŷn.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn cydnabod pwysigrwydd cymorth i helpu gofalwyr di-dâl i gynnal eu gwydnwch a'u llesiant emosiynol wrth gyflawni dyletswyddau gofal. Yn ogystal â hyrwyddo gweithgareddau llesiant ataliol, un o'r amcanion fydd gwella ymwybyddiaeth o'r cymorth seicolegol ychwanegol sydd ar gael.

Camau Gweithredu

- Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu polisi ehangach ym maes iechyd meddwl. .
- Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r cymorth seicolegol lleol sydd ar gael fel y gallant gynnig gwasanaethau i ofalwyr di-dâl i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn ystod asesiad o anghenion gofalwyr.
- Ariannu a darparu gweithgareddau sy'n cynnig seibiant byr o ofalu a chymorth lles.

**Gwella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer gofalwyr hŷn neu ofalwyr anabl.**

Nododd y dadansoddiad o dystiolaeth rwystrau penodol i ofalwyr hŷn a gofalwyr anabl wrth ddod o hyd i wybodaeth, cyngor a chymorth. Y broses o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol yw camau cyntaf hanfodol dull ataliol, a nod Blaenoriaeth 2 yw sicrhau bod gofalwyr di-dâl o bob math yn gallu derbyn yr wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg gywir, ac mewn fformat priodol.

Mae gofalwyr hŷn wedi dweud wrthym nad yw gwybodaeth yn hygyrch bob amser, ac mae rhai pobl yn teimlo'n ddig am y duedd gynyddol i ddarparu gwybodaeth ar-lein yn unig. Bydd Llywodraeth Cymru a'n partneriaid cyflawni yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried anghenion gofalwyr hŷn a gofalwyr anabl wrth gymryd a monitro camau gweithredu i wella gwybodaeth, cyngor a chymorth, er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac wedi'u teilwra iddynt.

Hefyd, mae yna orgyffwrdd sylweddol rhwng darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol ac adnabod gofalwyr ifanc. Bydd y nodau o dan Flaenoriaeth 1 i wella'r broses o gydnabod ac adnabod gofalwyr yn helpu i ddarparu gwasanaeth cyfeirio a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ogystal â chynorthwyo gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr i adnabod gofalwyr di-dâl, bydd camau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn gallu gwella eu gwybodaeth i hysbysu teuluoedd am y cymorth priodol sydd ar gael iddynt yn unol â'u hamgylchiadau.

Camau Gweithredu

- O ran gwasanaethau a negeseuon i ofalwyr di-dâl, sicrhau bod yna opsiynau hygyrch eraill i unigolion, sy'n methu neu'n amharod i ddefnyddio gwasanaethau digidol neu'n anfodlon gwneud hynny.
- Gweithio gyda gofalwyr di-dâl sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau byw, a sefydliadau cynrychioliadol i sicrhau bod negeseuon yn hygyrch i ystod eang o bobl. Er enghraifft yn Gymraeg, mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, yn Iaith Arwyddion Prydain, fel copi sain neu braille, hawdd ei ddarllen, ac mewn fformatau sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc.
- Adolygu hybiau gwybodaeth a chymorth a llinellau cymorth lleol a chenedlaethol er mwyn archwilio opsiynau i hyrwyddo a rhannu arferion gorau'n ehangach. Mae enghreifftiau'n cynnwys llinell gyngor genedlaethol Gofalwyr Cymru, Hyb Gofalwyr Gwent a Gwasanaeth Gwybodaeth

Gofalwyr Ceredigion.

- Rhannu arferion gorau ar sut mae sefydliadau'n darparu adnoddau, canllawiau a chyfeiriadau mewn lleoliadau sy'n hygyrch i ystod eang o ofalwyr di-dâl, yn cynnwys unigolion sy'n llai tebygol o nodi eu hunain yn ofalwyr di-dâl. Gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau sy'n derbyn y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd lle nad yw rhai cohortau o ofalwyr di-dâl yn cael eu cyrraedd o bosibl.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth yn disgrifio sut y bydd yn helpu i annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel. Nodwyd bod angen ystyried nifer o feysydd eraill yn y Cynllun Cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Annog cyflogwyr i fod yn fwy ymatebol i anghenion gofalwyr di-dâl o oed gweithio, yn enwedig y rhai sy'n anabl, yn dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig neu a allai fod ag anghenion gwahanol oherwydd eu bod yn ddynion neu'n fenywod.**

Nododd y dadansoddiad o dystiolaeth fod rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl yn tueddu i fod yn wahanol gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau, a bod angen dulliau amrywiol a phwrpasol o wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth addas.

Mae cyflogwyr yng Nghymru yn gallu cyfrannu at y broses o osgoi goblygiadau negyddol ar gyfer gofalwyr sy'n gweithio sy'n nodi eu bod yn ofalwyr. Dylai gofalwyr di-dâl gael mynediad at gymorth neu addasiadau ystyrlon i'w helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau. Mae'r Strategaeth yn cynnwys ymrwymiadau i annog cyflogwyr i addasu eu polisïau a'u harferion, gan alluogi gofalwyr di-dâl i weithio a dysgu ochr yn ochr â chyflawni eu rôl ofalu.

Camau Gweithredu

- Defnyddio mecanweithiau partneriaeth gymdeithasol Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector, yn cynnwys undebau llafur, i wella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad wrth gefnogi gofalwyr di-dâl yn y gweithle.
- Archwilio cyfleoedd a gyflwynir gan ddeddfwriaeth y dyfodol a deddfwriaeth newydd, er enghraifft cynigion gan Lywodraeth y DU ar gyfer arferion Gweithio Hyblyg newydd.
- Cynyddu hygyrchedd ac aelodaeth y cynllun Cyflogwyr i Ofalwyr, yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymhlith gofalwyr sy'n gweithio a'u rheolwyr fel eu bod yn gwybod pa gymorth sydd ar gael o fewn sefydliadau.

Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud rhagor o waith wrth gyflwyno'r Cynllun er mwyn nodi a oes angen mwy o weithgarwch pwrpasol i fynd i'r afael â'r rhwystrau penodol i gyflogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol.

**Gwelliannau i'r gwasanaethau seibiant a gofal sydd ar gael i gynorthwyo gofalwyr di-dâl o oedran gweithio.**

Yn ôl y dadansoddiad o dystiolaeth, un o'r rhwystrau allweddol i gyflogaeth addas ar gyfer gofalwyr di-dâl o oedran gweithio oedd diffyg gwasanaethau gofal cymdeithasol, a darpariaeth seibiant annibynadwy yn benodol.

Bwriad ymrwymiadau a chamau gweithredu yn y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni, y nodwyd rhai ohonynt uchod, yw gwella mynediad at seibiant a gwyliau byr er mwyn helpu gofalwyr yn eu bywyd bob dydd a'u helpu i gyflawni eu dyletswyddau gofal, gan gynnwys hwyluso cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth. Hefyd, mae Blaenoriaeth 4 yn cydnabod cyfraniad hanfodol cyflogwyr at ddarparu gweithleoedd hyblyg ac ystyriol ar gyfer gofalwyr di-dâl. Er enghraifft:

Camau Gweithredu

- Annog cyflogwyr ym mhob sector i weithredu polisïau absenoldeb gofalwyr (cysylltiadau â gweithgarwch Cyflogwyr i Ofalwyr).
- Annog pob corff cyhoeddus i gael polisi gofalwyr, datblygu datganiad lles, a chynnig cynllun Pasbort Gofalwyr i'w gweithwyr..
- Annog cyflogwyr y sector cyhoeddus ac eraill i nodi aelod arweiniol o staff i hyrwyddo mentrau gofalwyr di-dâl a chodi ymwybyddiaeth o effaith cyfrifoldebau gofalu ar weithwyr.

Fodd bynnag, mae yna fwy o gyfleoedd i archwilio sut y gallwn fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu gofalwyr o oedran gweithio a nodwyd gan y dystiolaeth mewn perthynas ag argaeledd, cysondeb a dibynadwyedd gwasanaethau gofal ar gyfer y sawl sy'n derbyn gofal. Gellir archwilio hyn yn fanylach wrth roi'r Cynllun Cyflawni ar waith, ac mae'n bosibl y bydd cyfleoedd ar gael i gysylltu â'r agenda Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Bydd y broses o gyflwyno Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chymorth, sy'n gosod safonau ar gyfer comisiynu ymarfer, lleihau cymhlethdod ac ail-gydbwyso gwaith comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau, yn galluogi'r sector i wireddu'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Sut mae'r polisi yn hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu?

Nid yw'r Cynllun Cyflawni wedi'i fwriadu'n benodol i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi unrhyw elfen yn y Cynllun a fyddai'n achosi gwrthdaro rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun a allai gael effaith negyddol anghymesur ar grŵp gwarchodedig penodol. Yn ogystal, mae'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 yn ymrwymo i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â'r rôl ofalu, yn enwedig pan fydd gofalwyr ifanc yn ymgymryd â'r rôl.

## Sut y byddwch yn dangos effaith y polisi hwn ar ôl ei weithredu?

Rydym wedi nodi'n glir y camau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn llwyddiannus yn y Cynllun Cyflawni. Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun wedi bod yn seiliedig ar gyngor a mewnbwn gan Weithgorau, ein Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr ategol.

Mae ein hymrwymiad i ddysgu o ganfyddiadau gwaith ymchwil a data yn sicrhau bod polisïau sydd â'r nod o wella profiadau gofalwyr di-dâl yn seiliedig ar wybodaeth.

Hefyd, bydd metrigau perfformiad yn ein helpu i nodi'r meysydd lle nad yw'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ategol yn sicrhau gwelliannau arfaethedig, a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella'r broses. Bydd y broses o barhau i chwilio am ymchwil a data sy'n gysylltiedig â phrofiadau gofalwyr sydd â'r nodweddion gwarchodedig hyn, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r grwpiau hyn, yn elfen hanfodol o gymryd camau gweithredu i sicrhau bod y manteision arfaethedig yn cael eu gwireddu ar gyfer pob gofalwr di-dâl.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn cael ei ddiweddaru i ddadansoddi effeithiau posibl y Cynllun Cyflawni ar bobl â nodweddion gwarchodedig wrth gasglu gwybodaeth fonitro. Bydd yr Asesiad yn cael ei adolygu fel mater o drefn er mwyn asesu effeithiau gwirioneddol y Cynllun a nodi'r meysydd posibl lle bydd angen cymryd camau lliniaru i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol anfwriadol neu wella canlyniadau cydraddoldeb.

## Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

### Crynodeb

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn deillio o'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni ategol.

Mae gweithgareddau sy'n digwydd o dan ymbarél y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn gallu hyrwyddo gwelliannau wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, a gwasanaethau seibiant byr ar gyfer gofalwyr di-dâl trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae'r ymrwymiadau o dan Flaenoriaeth 1 yn y Strategaeth (adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl) yn cyfeirio at Strategaeth y Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol.

Mae'r Siarter i Ofalwyr Di-dâl hefyd yn fecanwaith pwysig ar gyfer egluro disgwyliadau yn ymwneud â lefel y gwasanaeth a'r cymorth y dylai gofalwyr di-dâl eu derbyn yn unol â'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, bydd y Siarter yn fodd o sicrhau bod sefydliadau yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i ofalwyr mewn perthynas â'r Gymraeg a'r Cynnig Gweithredol.

Archwiliodd y Cynllun Cyflawni gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, ac o ganlyniad mae cam wedi'i gynnwys i annog pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol fel seibiant byr o'r opsiwn gofalu.

Mae'r **Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl** yn darparu cyfarwyddyd lefel uchel yn ymwneud â'r hyn sydd ei angen ledled y sector cyhoeddus i wella a datblygu gwybodaeth, cyngor, cymorth a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer gofalwyr di-dâl. Fe'i cefnogir gan Gynllun Cyflawni sy'n amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Strategaeth. Nod y Strategaeth newydd a'i Chynllun Cyflawni ategol yw sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn manteisio ar yr hawliau a sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'i hegwyddorion craidd.

Mae **Safonau'r Gymraeg** yn gyfres o ofynion sy'n rhwymo mewn cyfraith ac yn berthnasol i Lywodraeth Cymru. O dan y Safonau, rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r safonau llunio polisi o dan Ran 4 adran 29 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod ein proses o lunio polisïau yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer llesiant y Gymraeg a defnyddwyr yr iaith. Maen nhw'n gofyn i ni wneud tri pheth:

- ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi mewn perthynas â'r Gymraeg (y rhai cadarnhaol a negyddol);
- ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau andwyol a manteisio ar bob cyfle i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; a
- cheisio sylwadau ar effeithiau'r Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori a cheisio barn siaradwyr Cymraeg a'r sawl sy'n defnyddio'r iaith.

Mae'r tri mater hyn wedi'u hystyried ar gyfer yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg ar y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni.

Cyd-destun

Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth:

- roedd 28.3% o bobl tair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 855,200 o bobl.
- adroddodd 16.1% (486,100) o bobl tair oed neu hŷn eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, 4.8% (144,600) yn wythnosol a 5.9% (178,300) yn llai aml.
- dywedodd 1.5% (46,600) eu bod byth yn siarad Cymraeg er eu bod yn gallu ei siarad. Nid oedd 71.7% yn gallu siarad Cymraeg.
- dywedodd 32.7% (987,800) y gallent ddeall Cymraeg llafar, gallai 25.4% (767,700) ddarllen Cymraeg a gallai 23.2% (702,500) ysgrifennu Cymraeg.

Yn ôl Stats Cymru, ym mis Mawrth 2019, roedd tua 14,000 o staff awdurdodau lleol ym meysydd rheoli a chymorth canolog, gwaith cymdeithasol a gwasanaethau cartref yn gallu siarad Cymraeg.

**Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg** a'r **Rhaglen Waith 2017-2021** gysylltiedig yw strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn amlinellu dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nid oedd y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni ategol wedi'u cynllunio'n bennaf i helpu i gyflawni'r amcanion o dan Strategaeth Cymraeg 2050. Pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan y trydydd sector neu'r sector preifat yn hytrach nag awdurdodau lleol neu wasanaethau gofal iechyd, nod y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yw defnyddio dull cymesur o ymdrin â gofynion iaith Gymraeg y Cynnig Gweithredol,[2] gan roi pwyslais ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau gofalwyr di-dâl.

[2] Mae 'Cynnig Gweithredol' yn golygu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod mor weladwy â'r Saesneg.

[Mwy na Geiriau...](#) yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Un o egwyddorion allweddol y fframwaith hwn yw'r Cynnig Gweithredol, sy'n golygu bod rhaid darparu gwasanaethau yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdanynt. Rydym wedi ymgorffori'r Cynnig Gweithredol ym mhob rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae llesiant unigolyn, ei ddymuniadau a'i deimladau, a'i hawliau i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno wrth wraidd y Ddeddf hon. Mae ein Codau Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Mae hynny'n golygu cynnwys hawliau ym mhrosesau cynllunio a chyflawni. Mae safonau'r Gymraeg ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn helpu i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn am sylwadau ar effeithiau'r Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori ar bolisi, a cheisio barn siaradwyr Cymraeg a'r sawl sy'n defnyddio'r iaith.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth wedi manteisio ar fewnbwn gan aelodau'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl a'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr. Mae'r ddau grŵp yn cynnwys gofalwyr di-dâl o bob rhan o Gymru. Wrth symud ymlaen, rydym yn bwriadu adolygu aelodaeth o'r grwpiau hyn er mwyn cryfhau cynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg a'r iaith Gymraeg. Mae cadeirydd annibynnol y Grŵp Cynghori Gweinidogol, Arwel Ellis Owen, yn siaradwr Cymraeg ac yn gyn-gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru a Byrddau'r Cyngor Gofal a Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddwn yn manteisio ar ei brofiad helaeth i ystyried sut y gallwn hyrwyddo'r Gymraeg trwy gyflwyno'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r Cynllun Cyflawni ategol.

Ym mis Mawrth 2020, cynhaliwyd gweithdy penodol yn gofyn i aelodau'r Grŵp Cynghori weinidogol awgrymu pynciau pwysig ac agweddau ymarferol sy'n effeithio ar brofiadau gofalwyr o ddydd i ddydd. Roedd yr awgrymiadau hyn yn llywio cynnwys y ddogfen ymgynghori gyhoeddus. Roedd cyfarfodydd dilynol y Grŵp Cynghori Gweinidogol yn 2020 yn trafod y ddogfen ymgynghori ddrafft cyn ei chyhoeddi. Mae'r trafodaethau hyn ar gael i'w gweld yn:

- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr | LLYW. CYMRU

Cynhaliodd y Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr bum sesiwn drafod ac adborth i ymgysylltu ag unigolion y tu hwnt i aelodaeth y grŵp, a chyhoeddwyd eu safbwyntiau gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn y ddwy iaith er mwyn hyrwyddo ymgysylltiad â siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

- https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/grp-ymgysylltu-cenedlaethol-ar-gyfer-gofalwyr-a-wythnos-ymgysylltu.

Unwaith eto, roedd y trafodaethau hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r ymgynghoriad a'r Strategaeth derfynol.

Ni nododd y naill grŵp na'r llall fod y Gymraeg yn bryder nac yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r

grwpiau hyn wrth wynebu pwysau cynnar pandemig Covid-19, felly roedd effaith uniongyrchol yr argyfwng yn pwyso'n drwm ar ofalwyr di-dâl a chyrff cyhoeddus. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gellid bod wedi gwneud mwy i amlygu'r Gymraeg fel eitem benodol i'w thrafod. O ganlyniad, fe aethom ati i gymryd camau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn ffordd fwy rhagweithiol wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni.

Roedd dogfen yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a gyhoeddwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cynnwys cwestiynau penodol yn gofyn am safbwyntiau ar yr effaith bosibl ar y Gymraeg (cwestiynau 30 a 31). Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 20 Hydref 2020 a'r dyddiad cau oedd 20 Ionawr 2021. Derbyniwyd 91 o ymatebion, gan gynnwys ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fel y nodwyd yn y crynodeb o'r ymatebion, derbyniwyd 41 o ymatebion i gwestiwn 30, a 25 o ymatebion i gwestiwn 31 a oedd yn gofyn yn benodol am gyfleoedd posibl ac effeithiau negyddol ar y Gymraeg:

https://llyw.cymru/cynllun-cenedlaethol-i-ofalwyr

Yn gyffredinol, barn yr ymatebwyr oedd bod Cymru'n genedl ddwyieithog a bod angen i bobl allu cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis ac y dylent allu gwneud hynny, felly mae'r Strategaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i Chynllun Cyflawni ategol yn gyfle i adlewyrchu'r agweddau cymdeithasol, diwylliannol, iechyd a chyfreithiol pwysig hyn. Codwyd pwnc darparu gwasanaethau yn newis iaith gofalwr fel mater a oedd yn gysylltiedig â darparu gwybodaeth a gwasanaethau a chael mynediad atynt. Ystyriwyd bod darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig iawn os oes dementia ar yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Rhaid cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolyn, ac er mwyn iddo allu cael triniaeth a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwysleisiodd nifer o atebion, gan gynnwys ateb Comisiynydd y Gymraeg, bwysigrwydd y Cynnig Gweithredol presennol.

Ar ôl adolygu'r adborth hwn, lluniwyd testun y Strategaeth a gyhoeddwyd er mwyn nodi'n glir bod Cymru'n genedl ddwyieithog a bod angen i bobl allu cyfathrebu yn eu dewis iaith, ac y dylent allu gwneud hynny, wrth ddefnyddio gwasanaethau i'w helpu i gyflawni eu rôl ofalu.

Yn ogystal ag ystyried adborth yr ymgynghoriad ar y Gymraeg wrth ddatblygu'r Strategaeth, roedd y broses o lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn helpu i nodi'r meysydd y byddai angen i ni ymateb iddynt wrth ddatblygu'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni, er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael dylanwad cadarnhaol ar hygyrchedd gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg.

## Effaith bosibl y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ar y Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (cadarnhaol a negyddol) ac ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau andwyol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Isod ceir asesiad o bob blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl a'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu cysylltiedig yn y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni mewn perthynas â'r gofynion hynny.

**Blaenoriaeth 1: adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl**

***Themâu***

- **Gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl**
- **Codi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl**
- **Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella asesiadau gofalwyr**

Gall pobl wynebu rhwystrau i nodi eu bod yn ofalwyr di-dâl, sy'n golygu nad yw'r wybodaeth sydd ar gael i'w cefnogi yn ymddangos yn berthnasol. Mae'n bwysig bod gwybodaeth a negeseuon yn ymwneud â chymorth i ofalwyr di-dâl yn cael eu cyflwyno mewn ffordd amlwg yn y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl sy'n siarad Cymraeg fel prif iaith neu iaith gyntaf. Gall arddangos y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr gynorthwyo'r rhai sy'n dysgu'r iaith hefyd, gan roi cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 yn ceisio codi ymwybyddiaeth gofalwyr di-dâl o bob oed o'r ffaith bod cymorth ariannol, emosiynol ac ymarferol ar gael os ydynt yn nodi eu bod yn ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg.

Camau Gweithredu

- Gweithio gyda gofalwyr di-dâl sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau byw, a sefydliadau cynrychioliadol i sicrhau bod negeseuon yn hygyrch i ystod eang o bobl. Er enghraifft yn Gymraeg, mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, yn Iaith Arwyddion Prydain, fel copi sain neu braille, hawdd ei ddarllen, ac mewn fformatau sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc.
- Cydweithio i bennu cyfres o egwyddorion iaith i'w defnyddio ar gyfer pob agwedd ar ofal di-dâl, cymorth a chodi ymwybyddiaeth. Fel rhan o'r gweithredu hwn byddwn yn:
  - Sicrhau bod yr egwyddorion yn crisialu'r angen sylfaenol i lawer o bobl o allu cael gafael ar wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Sicrhau bod yr egwyddorion yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod cyfathrebu'n hawdd a hwylus i ofalwyr di-dâl gydag amrywiaeth eang o brofiadau byw, gofynion iaith ac anghenion cyfathrebu hygyrch.
  - Osgoi iaith sy'n stigmateiddio a blaenoriaethu'r berthynas ofalu rhwng y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal ganddo lle bo'n bosibl (e.e. aelod o'r teulu, ffrind, cymydog).

Gall anawsterau ddeillio o sefyllfa lle nad yw gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu yn y gymuned yn gwybod bod unigolyn yn ofalwr di-dâl, er enghraifft pan fydd y person sy'n derbyn gofal ganddo yn cael ei ryddhau o'r ysbyty, wrth gasglu meddyginiaeth, neu wrth gael mynediad at drafnidiaeth neu siopa. Rhaid cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolyn, sy'n cynnwys cael triniaeth a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, rhai pobl ifanc a'r rhai sy'n byw gyda dementia gael anawsterau yn cyfleu eu teimladau a'u hemosiynau os nad ydynt yn defnyddio eu dewis iaith.

Mae Mesur y Mynydd yn brosiect gwerthuso a gwblhawyd dros dair blynedd (2018-2020) i ddadansoddi profiadau pobl o wasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys profiadau gofalwyr di-dâl. Roedd storïau gofalwyr ifanc 12-14 oed yn disgrifio gwasanaethau amrywiol a oedd wedi bod yn gefnogol, gan amlygu rhai o'r cyfleoedd ehangach a oedd ar gael i gefnogi rhywun.

*Cefais gymorth gan [sefydliad] ar gyfer llesiant emosiynol. Yn fy marn i, fe'm helpodd lawer i ymdopi â'r hyn yr oeddwn yn mynd drwyddo. Ar y dechrau roeddwn yn nerfus ac yn ofnus iawn ond wrth iddo fynd yn ei flaen roedd yn caniatáu i mi fod yn agored a theimlo'n ddiogel.* ***Roedd yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ei bod yn siarad Cymraeg a Saesneg â mi.*** *Rwy'n teimlo ei fod wedi fy helpu i gael golwg wahanol ar fywyd a deall y materion yn well. Yn gyffredinol, profiad cadarnhaol.*

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 1 yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol sydd fwyaf tebygol o gael cyswllt â gofalwyr di-dâl yn y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector, fel bod modd iddynt ymateb i'w hanghenion yn unol â dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bwriad camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni yw codi ymwybyddiaeth o anghenion Cymraeg gofalwyr di-dâl.

Cam Gweithredu

- Adolygu'r cyfoeth o opsiynau hyfforddiant a gynigir ledled Cymru ar hyn o bryd, nodi bylchau ac archwilio opsiynau i ddatblygu a rhannu enghreifftiau o arferion gorau i gefnogi gweithwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol. Fel rhan o'r adolygiad uchod, archwilio cynnwys modiwlau ar anghenion y Gymraeg, a phwysigrwydd nodi a diwallu anghenion grwpiau ymylol a rhai na chlywir ganddynt yn aml, a gofalwyr ifanc

Gall eiriolaeth a grymuso gynnwys cyd-gynhyrchu a sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn helpu i lunio gwasanaethau a pholisi. Mae galluogi gofalwyr sy'n defnyddio ac yn dibynnu ar y Gymraeg i helpu i gynllunio gwasanaethau yn gallu cynyddu ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu datblygu mewn ffordd sy'n ystyried eu hanghenion.

Mae Blaenoriaeth 1 yn cynnwys yr ymrwymiad i fuddsoddi mewn mecanweithiau sy'n helpu gofalwyr di-dâl i leisio eu barn ar lefel genedlaethol, leol a rhanbarthol. Byddwn yn gwneud hyn trwy adolygu aelodaeth o'r Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr ar lefel Cymru i sicrhau ei fod yn cynrychioli gofalwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'r grŵp ymgysylltu yn ategu'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl ac mae'n gweithredu fel mecanwaith i sicrhau bod llais a phrofiad gofalwyr yn cael eu clywed yno. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i rannu enghreifftiau o ymarfer da gan eu paneli ymgysylltu â gofalwyr neu grwpiau llywio rhanbarthol a lleol er mwyn sicrhau bod cynnwys llais a phrofiad gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr sy'n siarad Cymraeg, yn rhan annatod o ddatblygu a darparu gwasanaethau.

- Adolygu aelodaeth y Grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr i sicrhau ei fod yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o brofiadau gofalwyr..
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau mewn perthynas â phaneli ymgysylltu â gofalwyr rhanbarthol neu grwpiau llywio sy'n hwyluso cynnwys llais a phrofiad gofalwyr wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.
- Adolygu'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiad sbotolau y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mehefin 2021 ac archwilio sut y gellir gweithredu'r awgrymiadau a wnaed i gefnogi cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl.
- Parhau i ariannu a darparu hyfforddiant cynrychioli gofalwyr a hyfforddiant hunaneiriolaeth gofalwyr drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o sicrhau eu gofal a'u cymorth. Mae diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o lesiant yn cynnwys 'sicrhau hawliau a hawliadau'. Ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n siarad Cymraeg, bydd sicrhau hawliau a hawliadau yn golygu gallu defnyddio'r Gymraeg i gyfleu eu hanghenion cymorth fel partneriaid cyfartal. Mae'r ymrwymiad o dan Flaenoriaeth 1 i

ddatblygu ystod o atebion sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu asesiadau o anghenion amserol ac effeithiol yn cynnwys cynnig asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ddiweddar, fe aeth Gofal Cymdeithasol Cymru ati i gomisiynu'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth i gynnal adolygiad o dystiolaeth yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso mynediad at asesiad o anghenion gofalwyr, yn ogystal â phrofiadau'r rhai sydd wedi cael asesiad. Yn anffodus, nid oedd yr adolygiad yn cynnwys hygyrchedd neu ansawdd asesiadau o anghenion a gwblhawyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i ni ystyried sut i lenwi'r bwlch tystiolaeth hwn ac ystyried a oes angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod gofalwyr yn gallu manteisio ar eu hawl i gael asesiad yn y Gymraeg.

Camau Gweithredu

- Defnyddio'r canfyddiadau o ymchwil SCIE a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Prosiect Datblygu Data Iechyd Cyhoeddus Cymru, a data o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella i benderfynu pa gamau gweithredu penodol sydd eu hangen i wella'r nifer sy'n cael asesiadau o anghenion gofalwyr.

- Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol i benderfynu pa ganllawiau ac adnoddau pellach sydd eu hangen i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol gydag asesiadau o anghenion gofalwyr. Gallai hyn gynnwys adolygiad o ffynonellau cyfredol o ganllawiau arfer da ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal asesiadau, er enghraifft canllawiau Sgyrsiau Gofalwyr Rhondda Cynon Taf.

**Blaenoriaeth Dau: darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth**

**Themâu**

- **Codi ymwybyddiaeth o sut i dderbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth**
- **Mynd i'r afael â'r gagendor digidol**

Y broses o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol yw camau cyntaf hanfodol dull ataliol, a nod Blaenoriaeth 2 yw sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn gallu derbyn yr wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg gywir, ac mewn fformat priodol.

Mae pobl yn dewis derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg gan mai dyna yw eu dewis a'u hawl. Fodd bynnag, i eraill, mae'n fwy na mater o ddewis yn unig, mae'n fater o angen. Mae hyn yn berthnasol iawn i'r henoed, pobl â dementia neu unigolion sydd wedi cael strôc, neu blant ifanc sydd ond yn siarad Cymraeg o bosibl. I lawer o bobl, mae'n rhaid defnyddio'r Gymraeg er mwyn cyfathrebu a chymryd rhan yn effeithiol yn eu gofal, neu ofalu am rywun annwyl. Felly, mae gan ddarparwyr gwasanaethau gyfrifoldeb i ddiwallu'r anghenion Cymraeg hyn wrth lunio a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Yn 2018, cwblhaodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Pumed Senedd ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr o bob oed yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion yn ymwneud â phrofiadau siaradwyr Cymraeg o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi nodi pwysigrwydd gallu derbyn gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gall unigolyn sy'n darparu gofal wynebu sefyllfa anodd iawn, os nad argyfyngus, ac mae'n hollbwysig

bod modd cael gafael ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw ei ddymuniad.

Bydd Llywodraeth Cymru a'n partneriaid cyflawni yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg wrth gymryd a monitro camau gweithredu i wella gwybodaeth, cyngor a chymorth, er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac wedi'u teilwra iddynt.

Mae camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 2 yn cynnwys rhannu ymarfer da ledled sefydliadau a sectorau. Er enghraifft, mae sefydliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn hyrwyddo defnydd o'r logo 'Iaith Gwaith' ar ddillad, laniardau a llofnodion e-bost staff er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu adnabod siaradwyr Cymraeg a dechrau cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn galluogi pobl i adnabod pwy sy'n gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio marciwr gweledol.

Camau Gweithredu

- Adolygu hybiau gwybodaeth a chymorth a llinellau cymorth lleol a chenedlaethol er mwyn archwilio opsiynau i hyrwyddo a rhannu arferion gorau'n ehangach. Mae enghreifftiau'n cynnwys llinell gyngor genedlaethol Gofalwyr Cymru, Hyb Gofalwyr Gwent a Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Ceredigion.
- Rhannu arferion gorau ar sut mae sefydliadau'n darparu adnoddau, canllawiau a chyfeiriadau mewn lleoliadau sy'n hygyrch i ystod eang o ofalwyr di-dâl, yn cynnwys unigolion sy'n llai tebygol o nodi eu hunain yn ofalwyr di-dâl. Gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau sy'n derbyn y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd lle nad yw rhai cohortau o ofalwyr di-dâl yn cael eu cyrraedd o bosibl.

Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chyflwyno mewn ffordd nad yw'n arwain at rwystrau i'r rhai sydd â nam ar y synhwyrau. Er enghraifft, nododd Mesur y Mynydd fod pwnc hygyrchedd gwybodaeth yn cael ei godi gan amlaf gan bobl â nam ar y golwg, ac meddai un ymatebydd:

*"Rwy'n cael anhawster gwirioneddol wrth gael gwybodaeth mewn fformat y gallaf ei ddefnyddio – mae fel pe bai'r flaenoriaeth yw glynu wrth Ddeddf yr Iaith Gymraeg, ond gan gadw'r defnydd o bapur i'r lleiafswm, gan beri fod yr wybodaeth wedi'i gwasgu ar un ochr o'r papur mewn un iaith, neu'n cael ei hargraffu bob yn ail, fel arfer mewn print mân iawn, neu mewn fformat nad yw'n gweithio gyda fy narllenydd sgrin e.e. pdf – dyw technoleg darllenwyr sgrin ddim yn ymateb yn dda i gymysgedd o ieithoedd.  Byddai'n well gen i nad oes dim Cymraeg ar yr wybodaeth yr ydw i'n ei derbyn, er mwyn gallu cyflwyno'r cyfan mewn ffordd sy'n hygyrch i mi, ond dyw hynny ddim fel pe bai'n ddewis sy'n agored."*

Bydd angen gwneud rhagor o waith i gasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth wrth ddiwallu anghenion ystod eang o bobl, ac archwilio sut i fodloni gofynion sy'n gwrthdaro o bosibl mewn ffordd nad yw'n golygu bod y rhwystrau presennol yn gwaethygu.

**Blaenoriaeth 3: helpu i fyw yn ogystal â gofalu**

***Themâu***

- **Gwella mynediad i wyliau byr a seibiannau**

- **Ehangu mynediad at gymorth seicolegol**

Nod y Strategaeth yw gwella canlyniadau iechyd a llesiant ar gyfer gofalwyr di-dâl o bob math trwy ymrwymiadau amrywiol, o dan Flaenoriaeth 3 yn benodol, sef helpu i fyw yn ogystal â gofalu. Mae hyn yn cydnabod bod opsiynau seibiant a gwyliau byr hyblyg yn gallu bod yn elfen hanfodol o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr di-dâl i reoli eu rôl ofalu, gan leihau cyfrifoldebau gofal dros dro hefyd. Mae ymrwymiadau o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys deall sut y gellir ailddiffinio opsiynau seibiant i ddiwallu anghenion unigol, ac archwilio dulliau arloesol o ddarparu opsiynau seibiant.

Gall gwyliau byr a chyfleoedd i gael seibiant o ddyletswyddau gofal gynnwys chwaraeon, gweithgareddau hamdden neu ddiwylliannol, yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol fel gofal amgen neu wasanaeth eistedd dros nos ar gyfer y person sy'n derbyn gofal. Fel sy'n wir am fathau eraill o gymorth sy'n cael eu darparu gan y sector cyhoeddus, bydd gofyniad cyfreithiol y Cynnig Gweithredol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn berthnasol i opsiynau seibiant byr. Rhaid i brosesau comisiynu sicrhau bod yr holl wasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol mewn perthynas â'r Gymraeg. Os yw gweithgarwch seibiant byr y trydydd sector yn cael ei ariannu trwy grantiau'r sector cyhoeddus, rhaid i'r sefydliad cyflenwi fodloni amodau Cymraeg y cynnig ariannu.

Mae’r adroddiad 'Pa wahaniaeth y mae seibiant yn ei wneud', a gafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddatblygu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac academyddion ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor, yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer seibiannau byr yng Nghymru. Bydd y ddogfen yn hanfodol wrth lunio ein camau nesaf tuag at sicrhau bod pob gofalwr yn gallu manteisio ar seibiannau byr priodol. Mae'n cynnwys 12 egwyddor allweddol, wedi'u cyd-gynhyrchu â gofalwyr, sy'n sylfaen i ddull gweithredu yn y dyfodol i ddatblygu opsiynau seibiant byr yng Nghymru. Un o'r egwyddorion hyn yw darparu opsiynau seibiant personol, hyblyg ac ymatebol sy'n adlewyrchu amrywiaeth pobl sy'n cyflawni dyletswyddau gofal. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod opsiynau seibiant yn cydnabod ffactorau pwysig sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth a chynhwysiant, er enghraifft, oedran, anabledd, iaith a diwylliant.

Camau Gweithredu

- Adolygu argymhellion a 12 egwyddor adroddiad Pa wahaniaeth y mae seibiant yn ei wneud: gweledigaeth ar gyfer dyfodol seibiannau byr i ofalwyr di-dâl yng Nghymru a chydweithio i gytuno ar lwybr gweithredu.
- Ariannu a darparu opsiynau seibiant byr i ateb y cynnydd yn y galw wrth i gyfyngiadau symud gael eu llacio. Darparu gwasanaethau eistedd gyda rhywun a gofal amgen mwy traddodiadol, gweithio ar draws sectorau a chyda chymunedau lleol i ddatblygu dulliau mwy arloesol.
- Ariannu a darparu gweithgareddau sy’n cynnig seibiant byr o ofalu a chymorth lles. Mae enghreifftiau cyfredol yn cynnwys sesiynau ‘Amser i Fi’ Gofalwyr Cymru a Hyb Lles ar-lein Gofalwyr Cymru

Mae'r Cynllun Cyflawni hefyd yn cydnabod sut y gallai cynlluniau sy'n cynnig cyfnod byr o orffwys o rôl ofalu gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu wella sgiliau presennol, gan roi cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg.

Cam Gweithredu

- Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, cynnig cyfleoedd i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg fel math o weithgaredd seibiant byr.

### Blaenoriaeth 4: cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

***Themâu***

- **Annog awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth i adnabod gofalwyr ifanc**
- **Gweithio gyda chyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol i hyrwyddo gweithleoedd sy'n gyfeillgar i ofalwyr di-dâl**
- **Hyrwyddo gwytnwch ariannol**

Mae'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu o dan Flaenoriaeth 4 yn pwysleisio pwysigrwydd adnabod gofalwyr ifanc mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Blaenoriaeth 4 hefyd yn cydnabod yr angen am gysylltiad cryf rhwng ysgolion a'u gwasanaethau lleol i ofalwyr ifanc er mwyn cefnogi gofalwyr ifanc yn llawn.

Mae cyflogwyr yng Nghymru yn gallu cyfrannu at y broses o osgoi goblygiadau negyddol ar gyfer gofalwyr sy'n gweithio os ydynt yn nodi eu bod yn ofalwyr. Dylai gofalwyr di-dâl gael mynediad at gymorth neu addasiadau ystyrlon i'w helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau. Mae Blaenoriaeth 4 yn cynnwys ymrwymiadau i annog cyflogwyr i addasu eu polisïau a'u harferion, gan alluogi gofalwyr di-dâl i weithio a dysgu ochr yn ochr â chyflawni eu rôl ofalu.

Nod arall Blaenoriaeth 4 yw gwella gwytnwch ariannol gofalwyr di-dâl, gan gydnabod bod gofalwyr di-dâl o bob oed mewn mwy o berygl o ddioddef tlodi.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg sy'n deillio o'r ymrwymiadau a'r camau gweithredu yn y Strategaeth neu'r Cynllun Cyflawni. Rydym yn parhau i fod yn agored i archwilio cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac ar gyfer meithrin effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg trwy Flaenoriaeth 4 wrth roi'r Cynllun ar waith.

### Siarter i Ofalwyr Di-dâl

Nod yr ymrwymiad yn y strategaeth i greu Siarter i Ofalwyr Di-dâl yw lleihau'r gwahaniaeth rhwng y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gwahanol.

Mae sicrhau diogelwch, urddas a pharch siaradwyr Cymraeg yn ganolog i'r broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod canlyniadau llesiant pobl yn cael eu cefnogi, a bod eu hanghenion gofal a chymorth, gan gynnwys eu hanghenion iaith, yn cael eu hasesu a'u diwallu yn gywir. Dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu a chymryd rhan yn effeithiol yn eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal, felly mae gan ddarparwyr gwasanaethau gyfrifoldeb i ddiwallu'r anghenion

gofal hyn.

Mae'r Codau Ymarfer o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, a bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt, yn unol â gofynion y Cynnig Gweithredol.

Nod y Siarter fydd sicrhau bod gofalwyr di-dâl o bob math yn derbyn y lefel o gymorth y mae ganddynt hawl iddo gan weithwyr proffesiynol, gwasanaethau a sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys eu hawliau o dan Safonau'r Gymraeg. Mae'r Siarter yn parhau i gael ei datblygu a bydd yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach na'r Cynllun Cyflawni.

Er mwyn sicrhau bod profiadau siaradwyr Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn y Siarter, bydd y broses gyd-gynhyrchu yn ceisio cynnwys eu safbwyntiau.